

# Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>	
<b>PWYLLGOR GWAITH</b>	<b>THE EXECUTIVE</b>	
<b>DYDD LLUN 14 RHAGFYR 2020 10.00 o'r gloch</b>	<b>MONDAY 14 DECEMBER 2020 10.00 am</b>	
<b>CYFARFOD RHITHIOL</b>	<b>VIRTUAL MEETING</b>	
Swyddog Pwyllgor	<b>Ann Holmes 01248 752518</b>	Committee Officer

## AELODAU/MEMBERS

### Plaid Cymru/Party of Wales

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAGS,  
Robin Wyn Williams

### Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

## COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.  
Bydd recordiad o'r cyfarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosibl.

## R H A G L E N

### 1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

### 2 **MATERION BRYD A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

### 3 **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 1 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraidd.

### 4 **ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2020/21** (Tudalennau 13 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 5 **PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR - AIL GARFREFI AC EIDDO GWAG TYMOR HIR (ADOLYGIAD)** (Tudalennau 35 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

### 6 **CHWARAEON GOGLEDD CYMRU - ACHOS BUSNES**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	14 Rhagfyr 2020
Pwnc / Testun:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Deilydd(ion) Portffolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd 01248 752108 <a href="mailto:JHuwJones@ynysmon.gov.uk">JHuwJones@ynysmon.gov.uk</a>
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

#### A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddarau'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ionawr – Awst 2021**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrïwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgrïwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

#### B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydy'.

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol.

**DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

1	<b>Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys</b>	Ddim yn berthnasol.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	
3	<b>A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-</b>	
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	
5	<b>Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg</b>	

**E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?****Beth oedd eu sylwadau?**

1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)</b>	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).
2	<b>Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)</b>	
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)</b>	Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddarau.

<b>E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	
7	<b>Caffael</b>	
8	<b>Sgriwtini</b>	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9	<b>Aelodau Lleol</b>	Amherthnasol.

**F - Atodiadau:**

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ionawr – Awst 2021.

**FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020



Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 4 Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – **sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid** - ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

\* *Allwedd:*

*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*

*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*

*ErG = Er gwybodaeth*

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddariwyd 3 Rhagfyr 2020

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir							
Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
<b>Ionawr 2021</b>							
1	<b>Cyllideb 2021/22 (S)</b>  Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau  Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith  18 Ionawr 2021		
2	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor  Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  25 Ionawr 2021		
3	<b>Strategaeth Interim Tai 2020-21</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai  Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyng Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith  25 Ionawr 2021	Cyngor Llawn  Dyddiad i'w gadarnhau	
4	<b>Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2019/20</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau  Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams		Pwyllgor Gwaith  25 Ionawr 2021		

Tudalen 5

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddariwyd 3 Rhagfyr 2020

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
5	<b>Cwrs Golf Llangefni -</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Rheoleiddio a Datblygu Economaidd	Christian Branch Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro  Cyng Carwyn Jones	Pwyllgor Gwaith  25 Ionawr 2021 (i'w gadarnhau)	
<b>Chwefror 2021</b>						
6	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Gwaith  15 Chwefror 2021	
<b>Mawrth 2021</b>						
7	<b>Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20</b>  Cymeradwyo'r adroddiad	Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol	Busnes y Cyngor	Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro  Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 9 Mawrth 2021	Penderfyniad dirprwyiedig  Mawrth 2021
8	<b>Monitro Cyllideb Refeniw 20120/21 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth



## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020

Tudalen 7

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
9 <b>Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
10 <b>Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	
11 <b>Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22</b>  Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021
12 <b>Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyng Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tudalen 8	13	<b>Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyng Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021
	14	<b>Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2021/22</b>  Cymeradwyaeth.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Gwasanaethau Oedolion	Iola Richards Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro  Cyng Llinos Medi	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021
	15	<b>Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2021/22</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyng Alun W Mummery	Panel Sgriwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021
	16	<b>Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyng Alun W Mummery	Panel Sgriwtini Cyllid(dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgrwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)	
Tudalen 9	17	<b>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22 (S)</b>  Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgrwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)  Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021
	18	<b>Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Cyllid (13 Tachwedd, 2020)  Panel Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021
	19	<b>Cyllideb Gyfalaf 2021/22</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgrwtini Cyllid (dyddiad i'w gadarnhau)  Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol 16 Chwefror 2021	Pwyllgor Gwaith  1 Mawrth 2021	Cyngor 9 Mawrth 2021

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020

Tudalen 10

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtni (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
20	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  22 Mawrth 2021	
21	<b>Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2020/21 (S)</b>  Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid  Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtni Corfforaethol 8 Mawrth 2021	Pwyllgor Gwaith  22 Mawrth 2021	
22	<b>Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor</b>	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai  Cyng Alun W Mummery	Pwyllgor Sgriwtni Corfforaethol (dyddiad i'w gadarnhau)	Pwyllgor Gwaith  22 Mawrth 2021 (i'w gadarnhau)	
<b>Ebrill 2021</b>							
23	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  26 Ebrill 2021	

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddarwyd 3 Rhagfyr 2020

Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir		Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
<b>Mai 2021</b>							
24	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  Mai 2021	
<b>Mehefin 2021</b>							
25	<b>Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020/21</b>  Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd  Cyng Ieuan Williams	I'w gadarnhau	Penderfyniad dirpwiedig  Mehefin 2021	
26	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
27	<b>Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2020/21 (S)</b>  Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Trawsnewid Corfforaethol	Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid  Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol  .....	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	

Tudalen 11

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

## Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith Cyfnod: Ionawr – Awst 2021

Diweddariwyd 3 Rhagfyr 2020

Tudalen 12

	Y pwnc a'i *categori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
28	<b>Monitro Cyllideb Refeniw 20120/21 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
29	<b>Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
30	<b>Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch4 (S)</b>  Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor	Adnoddau	Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151  Cyng Robin Wyn Williams	Panel Sgriwtini Cyllid	Pwyllgor Gwaith  Mehefin 2021	
<b>Gorffennaf 2021</b>							
31	<b>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)</b>  Cymeradwyo diweddariad misol.	Pwyllgor Gwaith	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd  Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith  Gorffennaf 2021	

\* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG = Er gwybodaeth

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH	
Dyddiad:	14 RHAGFYR 2020	
Pwnc:	ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI TRYSORLYS 2020/21	
Aelod(au) Portffolio	Y CYNGHORYDD R WILLIAMS	
Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth	MARC JONES	
Awdur yr Adroddiad:	JEMMA ROBINSON	
Ffôn:	01248 752675	
E-bost:	JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk	
Aelodau Lleol:	Amherthnasol	
<b>A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried Adroddiad Adolygu Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 a chyfeirio ymlaen i gyfarfod nesaf y Cyngor llawn gydag unrhyw sylwadau i'w hystyried yn derfynol.</li> </ul>		
<b>B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?</b>		
Amherthnasol		
<b>C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2020/21 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2020/21). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffwyd y Pwyllgor Archwilio yr adroddiad hwn ar 01 Rhagfyr 2020. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor hwn.</li> </ul>		
<b>CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?</b>		
Ydi		
<b>D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>		
Amherthnasol		
<b>DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?</b>		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)(gorfodol)	
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

<b>10</b>	<b>Arall</b>	Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio:- <ul style="list-style-type: none"> <li>I dderbyn adroddiad adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys am 2020/21, ac i'w argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw.</li> </ul>
<b>E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)</b>		
<b>1</b>	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?</b>	
<b>2</b>	<b>A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-</b>	
<b>3</b>	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:-</b>	
<b>4</b>	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	
<b>5</b>	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg</b>	
<b>F - Atodiadau:</b>		
Atodiad A – Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli Trysorlys am 2020/21		
<b>FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>		
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2020/21</li> <li>Dangosyddion Pwylllog a Rheoli Trysorlys 2020/21</li> <li>Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli Trysorlys 2019/20</li> </ul>		



## 1. Cefndir

### 1.1 Strategaeth Gyfalaf

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) godau diwygiedig ar gyfer Darbodusrwydd a Rheoli'r Trysorlys. O 2020/21, bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol baratoi Strategaeth Gyfalaf y bwriedir iddi ddarparu'r canlynol: -

- trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau;
- trosolwg o sut y rheolir y risg gysylltiedig; a'r
- goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

Aethpwyd ag adroddiad a oedd yn amlinellu ein Strategaeth Gyfalaf i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth 2020, a bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn cyn 31 Mawrth 2021.

### 1.2 Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Cyngor yn gweithredu cyllideb gytbwys, sy'n golygu'n fras y bydd arian a godir yn ystod y flwyddyn yn cwrdd â'i wariant arian parod. Mae rhan o'r gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn sicrhau bod y llif arian hwn wedi'i gynllunio'n ddigonol, gydag arian dros ben yn cael ei fuddsoddi mewn gwrthbartion risg isel, gan ddarparu hylifedd digonol yn y lle cyntaf cyn ystyried sicrhau'r elw uchaf posib o'r buddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn rhoi syniad o faint y bydd angen i'r Cyngor gael benthyg, yn y bôn, y cynllunio llif ariannol tymor hwy i sicrhau y gall y Cyngor gyflawni ei weithgareddau gwariant cyfalaf. Gall y gwaith hwn o reoli arian parod tymor hwy gynnwys trefnu benthyciadau tymor hir neu dymor byr, neu ddefnyddio gwargedion llif arian tymor hwy ac, ar brydiau, gellir ailstrwythuro unrhyw ddyled i fodloni amcanion cost neu risg y Cyngor.

Yn unol â hynny, diffinnir rheoli trysorlys fel:-

*"Rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian yr awdurdod lleol, ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a cheisio'r perfformiad gorau posib sy'n gyson â'r risgiau hynny. "*

## 2. Rhagarweiniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (diwygiwyd 2017). Mae prif ofynion y Côt fel a ganlyn:-

- (i) Creu a chynnal Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys, sy'n nodi polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor.
- (ii) Creu a chynnal Arferion Rheoli'r Trysorlys sy'n nodi'r modd y bydd y Cyngor yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny.
- (iii) Bod y Cyngor llawn yn derbyn Datganiad Blynyddol Strategaeth Rheoli Trysorlys, sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf ar gyfer y flwyddyn i ddod, Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn (yr adroddiad hwn) ac Adroddiad Blynyddol, yn ymdrin â gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- (iv) Y Cyngor yn dirprwyo cyfrifoldebau dros weithredu a monitro polisïau ac arferion rheoli trysorlys ac ar gyfer gweithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli trysorlys.

- (v) Y Cyngor yn dirprwyo rôl craffu ar y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys i gorff penodol a enwir. Ar gyfer y Cyngor hwn, y corff dirprwyedig hwnnw yw'r Pwyllgor Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad canol blwyddyn hwn yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, ac mae'n cwmpasu'r canlynol:-

- Diweddariad economaidd ar gyfer hanner cyntaf blwyddyn ariannol 2020/21;
- Adolygiad o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol;
- Gwariant cyfalaf y Cyngor fel y'i nodir yn y Strategaeth Gyfalaf, a dangosyddion darbodus;
- Adolygiad o bortffolio buddsoddi'r Cyngor ar gyfer 2020/21;
- Adolygiad o strategaeth fenthyca'r Cyngor ar gyfer 2020/21;
- Adolygiad o unrhyw aildrefnu dyledion a wnaed yn ystod 2020/21;
- Adolygiad o gydymffurfiaeth â'r Terfynau Trysorlys a Darbodus ar gyfer 2020/21.

### 3. Diweddariad Economaidd

- 3.1 Cafwyd diweddariad economaidd gan ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor ac mae i'w weld yn Atodiad 1. Maent hefyd wedi darparu'r rhagolygon isod ar gyfer cyfraddau llog:-

	Rhag 2020	Maw 2021	Meh 2021	Medi 2021	Rhag 2021	Maw 2022	Meh 2022	Medi 2022	Rhag 2022	Maw 2023
Cyfradd Banc (%)	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%	0.10%
Cyfradd 5 mlynedd BBGC (%)	1.80%	1.80%	1.80%	1.80%	1.80%	1.90%	1.90%	1.90%	1.90%	1.90%
Cyfradd 10 mlynedd BBGC (%)	2.10%	2.10%	2.10%	2.10%	2.20%	2.20%	2.20%	2.30%	2.30%	2.30%
Cyfradd 25 mlynedd BBGC (%)	2.50%	2.50%	2.60%	2.60%	2.60%	2.60%	2.70%	2.70%	2.70%	2.70%
Cyfradd 50 mlynedd BBGC (%)	2.30%	2.30%	2.40%	2.40%	2.40%	2.40%	2.50%	2.50%	2.50%	2.50%

- 3.2 Yn ddiweddar, darparodd ymgynghorwyr trysorlys y Cyngor sylwebaeth i gyd-fynd â'r rhagolygon cyfraddau llog uchod. Gellir gweld y sylwebaeth hon yn Atodiad 2.

### 4. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a diweddariad ar y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 4.1 Cymeradwywyd y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys (DSRhT) ar gyfer 2020/21 gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020. Nid oes unrhyw newidiadau polisi iddo; mae'r manylion yn yr adroddiad hwn yn diweddarau'r sefyllfa yng ngoleuni'r sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r newidiadau cyllidebol a gymeradwywyd eisoes.

### 5. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

- 5.1 Yn unol â'r Côt, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau diogelwch cyfalaf a hylifedd, a sicrhau lefel briodol o enillion sy'n gyson ag archwaeth risg y Cyngor. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ystyrir ei bod yn briodol cadw'r buddsoddiadau i rai tymor byr er mwyn cwrdd ag anghenion llif arian, ond hefyd i chwilio am y gwerth sydd ar gael mewn cyfnodau hyd at 12 mis gyda sefydliadau ariannol â statws credyd uchel. Fel y dangosir gan y rhagolygon ynghylch cyfraddau llog yn adran 3, mae bellach yn amhosib cael y cyfraddau llog a welwyd yn gyffredin mewn degawdau blaenorol oherwydd prin bod yr holl gyfraddau buddsoddi uwchlaw sero nawr bod y Gyfradd Banc ar 0.10%. O ystyried yr amgylchedd risg hwn a'r ffaith bod codiadau yn y Gyfradd Banc yn annhebygol o ddigwydd cyn diwedd 31 Mawrth 2023, disgwylir i enillion o fuddsoddiadau barhau i fod yn isel.


- 5.2** Er bod Banc Lloegr wedi dweud ei fod yn annhebygol o gyflwyno Cyfradd Llog negyddol, o leiaf yn ystod y 6 -12 mis nesaf, mae rhai cyfrifon adneuo eisoes yn cynnig cyfraddau negyddol am gyfnodau byrrach. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig a'r cyfnod clo, mae'r Banc a'r Llywodraeth wedi darparu digonedd o fynediad i gredyd ar gyfer marchnadoedd ariannol a busnesau, naill ai'n uniongyrchol neu drwy fanciau masnachol. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi darparu grantiau mawr i awdurdodau lleol i'w helpu i ddelio ag argyfwng Covid; yn achos rhai awdurdodau lleol mae hyn wedi achosi cynnydd mawr a sydyn yn eu balansau buddsoddi ac maent yn chwilio am gartref buddsoddi ar eu cyfer, ond dim ond am dymor byr iawn oedd rhai ohonynt nes y bu modd pasio'r symiau hynny ymlaen.
- 5.3** Mae cyfraddau cymryd benthg a rhoi benthg rhwng awdurdodau lleol hefyd wedi gostwng oherwydd y cynnydd yn y lefelau arian parod yn ceisio cartref tymor byr ar adeg pan mae'n debyg bod llawer o awdurdodau lleol yn cael anawsterau o ran rhagweld yn gywir pryd y byddant yn talu'r arian a dderbyniwyd neu pryd y ceir rhagor o arian mawr gan y Llywodraeth.
- 5.4** Roedd gan y Cyngor £42.224m o fuddsoddiadau ar 30 Medi 2020 (£20.208m ar 31 Mawrth 2020) a'r elw o'r portffolio buddsoddi am chwe mis cyntaf y flwyddyn oedd 0.07%. Mae rhestr lawn o'r buddsoddiadau ar 30 Medi 2020 i'w gweld yn Atodiad 3. Mae crynodeb o'r buddsoddiadau a'r cyfraddau ar gael yn Atodiad 4.
- 5.5** Oherwydd y grantiau mawr a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddelio ag argyfwng Covid a'r ffaith bod cyfrifon galw ar gael i'r Cyngor, mae hyn wedi golygu bod y balansau yn y cyfrifon hynny'n uwch na'r terfynau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol sydd wedi ei chynnwys yn y DSRhT am 2020/21. Wrth gynhyrchu'r DSRhT 2020/21, nid oedd modd rhagweld y cyfnod digynsail hwn. Yng ngoleuni hynny, bydd terfynau gwrthbartion yn cael eu hasesu a'u hadolygu wrth gynhyrchu'r DSRhT ar gyfer 2021/22.
- 5.6** Yr enillion o fuddsoddiadau y mae'r Cyngor wedi cynllunio ar eu cyfer am 2020/21 yw £0.053m ac mae'r perfformiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn unol â'r gyllideb, gyda £0.027m wedi'i dderbyn hyd ddiwedd Chwarter 2. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y byddwn oddeutu £0.011m yn brin o'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Er bod ein balansau arian parod wedi bod yn uwch na'r arfer, mae hyn yn cael ei wrthbwysu gan y cyfraddau llog is na'r disgwyl
- 5.7** Mae'r meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi a gymeradwywyd yn y DSRhT yn cwrdd â gofyniad y swyddogaeth rheoli trysorlys.
- 5.8** Gellir gweld y gwledydd a gymeradwyir ar gyfer buddsoddiadau yn Atodiad 5.
- 5.9** Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o fuddsoddiadau a wnaed i Awdurdodau Lleol eraill yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon. O ystyried mai diogelwch yr arian yw dangosydd allweddol y Cyngor hwn, ystyrir mai buddsoddiadau gydag Awdurdodau Lleol eraill yw'r ffordd fwyaf diogel o fuddsoddi arian, ac mae hyn yn rhoi enillion uwch na'r mwyafrif o gyfrifon galw gyda banciau.

Awdurdod Lleol	Dyddiad Cychwyn	Dyddiad Gorffen	Cyfradd Llog %	Swm
Cyngor Bwrdeistref Blackpool	30/07/2020	23/10/2020	0.15	5,000,000
Cyngor Thurrock	11/09/2020	11/01/2021	0.15	5,000,000
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley	25/09/2020	23/12/2020	0.15	3,500,000

## 6. Benthycha

- 6.1** Y gofyniad cyllid cyfalaf a ragwelir (GCC) ar gyfer 2020/21 yw £140.6m. Mae'r GCC yn dynodi angen sylfaenol y Cyngor i fenthycha at ddibenion cyfalaf. Os yw'r GCC yn bositif, gall y Cyngor fenthycha gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (BBGC) neu'r farchnad (benthycha allanol) neu o falansau mewnol ar sail dros dro (benthycha mewnol). Yn gyffredinol, mae'r cydbwysedd rhwng benthycha allanol a mewnol yn cael ei yrru gan amodau'r farchnad. Mae'r Cyngor wedi rhagweld y bydd wedi cael benthycg £128.9m ar ddiwedd y flwyddyn a bydd wedi defnyddio £11.7m o gronfeydd llif arian yn lle benthycha. Mae hwn yn ddull darbodus a chost-effeithiol yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ond bydd angen ei fonitro'n barhaus os bydd yr elw o giltiau yn well na'r disgwyl.
- 6.2** Ni chymerwyd benthycg unrhyw arian yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol hon, ond rhagwelir y gwneir hynny yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol. Bydd angen benthycha i gyllido rhan o raglen gyfalaf 2020/21 a gwneir hynny trwy fenthycha mewnol (o falansau arian parod) a benthycha allanol. Mae'r benthycha allanol mewn perthynas â chyllido cost cyfalaf cerbydau newydd yn unol ag amodau'r contract gwastraff a ddyfarnwyd i Biffa. Rhagwelir y bydd hyn yn £4.449m ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd 2020. Yn ogystal, mae effaith coronafeirws ar amcanion y rhaglen gyfalaf yn cael ei hasesu. Felly, bydd ein strategaeth fenthycha yn cael ei hadolygu a'i diwygio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau ac amlygiad i risg yn y tymor hir.

Mae'r graff a'r tabl isod yn dangos y newid yng nghyfraddau sicrwydd y BBGC ar gyfer chwe mis cyntaf y flwyddyn hyd yn hyn. Roedd y cyfraddau BBGC yn amrywio o fewn ystod gymharol gul rhwng Ebrill a Gorffennaf ond cododd pen hirach y gromlin yn ystod mis Awst. Daeth y cynnydd hwn mewn dau gyfnod roedd y cyntaf yn ail wythnos y mis yn sgil gobeithion am ysgogiad newydd o'r Unol Daleithiau lle gwelwyd buddsoddwyr yn symud arian allan o fondiau'r llywodraeth ac i mewn i ecwiti. Daeth yr ail newid ar ben hirach y gromlin tuag at ddiwedd y mis wrth i fuddsoddwyr ymateb i'r cyhoeddiad am y newid i darged chwyddiant y Ffed. Er gwaethaf symudiadau ymhellach allan yn y gromlin elw, ni fu unrhyw symud yn y pen byr ar y sail na fu newid sylfaenol i ragolygon ar gyfer cyfraddau llog. Roedd cyfradd darged 50 mlynedd BBGC ar gyfer benthycha tymor hir newydd yn ddigfnewid ar 2.30%.



	1 Year	5 Year	10 Year	25 Year	50 Year
Low	1.70%	1.67%	1.91%	2.40%	2.13%
Date	18/09/2020	30/07/2020	31/07/2020	18/06/2020	24/04/2020
High	1.94%	1.99%	2.19%	2.80%	2.65%
Date	08/04/2020	08/04/2020	08/04/2020	28/08/2020	28/08/2020
Average	1.80%	1.80%	2.04%	2.54%	2.33%

**6.3** Cyfyngedig iawn fu'r cyfleon a gafwyd i aildrefnu dyledion yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni ac yn dilyn y codiadau amrywiol yn yr elw a ychwanegwyd at enillion giltiau sydd wedi effeithio ar gyfraddau benthyca newydd BBGC ers mis Hydref 2010. Felly, nid oes unrhyw ddyledion wedi eu haildrefnu hyd yma yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

## **7 Sefyllfa Gyfalaf y Cyngor (Dangosyddion Darbodus)**

**7.1** Mae'r rhan hon o'r adroddiad wedi ei strwythuro er mwyn rhoi diweddariad ar:-

- Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor;
- Sut mae'r cynlluniau hyn yn cael eu cyllido;
- Effaith y newidiadau yn y cynlluniau gwariant cyfalaf ar y dangosyddion darbodus a'r angen sylfaenol i fenthyca; a
- Cydymffurfio â'r cyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer gweithgaredd benthyca.

### **7.2 Dangosydd Darbodus ar gyfer Gwariant Cyfalaf**

Mae'r tabl hwn yn dangos yr amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gwariant cyfalaf o'i gymharu â'r gyllideb gyfalaf:-

<b>Gwariant Cyfalaf</b>	<b>Amcangyfrif Gwreiddiol 2020/21 £'000</b>	<b>Y Sefyllfa ar 30 Medi 2020 £'000</b>	<b>Amcangyfrif cyfredol 2020/21 £'000</b>
Cronfa'r Cyngor	30,434	7,791	20,967
CRT	19,032	3,680	12,788
<b>Cyfanswm</b>	<b>49,466</b>	<b>11,471</b>	<b>33,755</b>

**7.2.1** Mae'r gwariant a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i'w cwblhau o fewn y gyllideb ond y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a rhagwelir tanwariant sylweddol yn y CRT hefyd. Adlewyrchir hyn yn y tabl uchod. Mae dadansoddiad llawn o'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd ar gyfer 2020/21 i'w weld yn Adroddiad Monitro Cyllideb Cyfalaf Ch2, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 30 Tachwedd 2020.

### **7.3 Newidiadau i Gyllido'r Rhaglen Gyfalaf**

**7.3.1** Mae rhai newidiadau i sut y cyllidir y rhaglen gyfalaf fel y gwelir yn y tabl isod. Mae'r prif reswm dros y newid fel y nodwyd ym mharagraff 7.2.1, gan y bydd tanwariant sylweddol yn 2020/21 mewn cynlluniau cyfalaf (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r CRT). Fodd bynnag, bydd y cynlluniau hyn, a'r cyllid ar eu cyfer, yn llithro i 2021/22 ac ni ragwelir, ar hyn o bryd, y bydd unrhyw gyllid yn cael ei golli oherwydd yr oedi.

**7.3.2** Mae'r tabl isod yn dwyn ynghyd brif elfennau strategaeth y cynlluniau gwariant cyfalaf (uchod), gan dynnu sylw at ddull cyllido gwreiddiol y rhaglen gyfalaf, a threfniadau cyllido disgwylidig y gwariant cyfalaf hwn. Mae elfen fenthyca'r tabl yn cynyddu dyled sylfaenol y Cyngor trwy'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), er y bydd hyn yn cael ei leihau'n rhannol gan daliadau referniw am ad-dalu dyled (y Ddarpariaeth Referniw Isaf). Efallai y bydd dyledion sy'n aeddfedu a gofynion trysorlys eraill yn ychwanegu at yr angen benthyca uniongyrchol hwn hefyd.

Cyllido Cyfalaf	Amcangyfrif Gwreiddiol 2020/21 £'000	Amcangyfrif Diwygiedig 2020/21 £'000
Grantiau Cyfalaf	20,769	15,070
Derbyniadau Cyfalaf	793	782
Cronfeydd Wrth Gefn	619	487
Cyfraniad Refeniw	16,133	10,152
Benthyca â chefnogaeth	7,955	5,727
Benthyca digefnogaeth	1,796	136
Benthyciad	1,401	1,401
<b>Cyfanswm</b>	<b>49,466</b>	<b>33,755</b>

#### 7.4 Newidiadau i'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC), Dyled Allanol a'r Terfyn Gweithredol

7.4.1 Mae tablau 7.4.2 a 7.4.3 isod yn dangos y GCC, sef yr angen allanol sylfaenol i fenthyca at bwrpas cyfalaf. Mae hefyd yn dangos y sefyllfa ddyled a ddisgwylir dros y cyfnod. Gelwir hyn yn Derfyn Gweithredol, ac fe'i gosodir yn flynyddol gan y Cyngor fel rhan o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys.

#### 7.4.2 Dangosydd Darbodus - y Terfyn Gweithredol ar gyfer dyled allanol

	Terfyn Gweithredol 2020/21 yn unol â DSRhT 2019/20 £'000	Sefyllfa Fenthyca Agoriadol 2020/21 £'000	Swm o fewn y Ffin £'000	Amcangyfrif o Sefyllfa Fenthyca 2020/21 £'000	Swm o fewn y Ffin £'000
<b>Dangosydd Darbodus – Dyled allanol / Y Terfyn Gweithredol</b>					
Benthyca	189,000	139,232	49,768	128,924	60,076
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	3,000	0	3,000	0	3,000
<b>Cyfanswm dyledion ar 31 March</b>	<b>192,000</b>	<b>139,232</b>	<b>52,768</b>	<b>128,924</b>	<b>63,076</b>

#### 7.4.3 Dangosydd Darbodus - Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC)

7.4.3.1 Ar hyn o bryd, rydym ychydig yn is na'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf a ragwelwyd yn wreiddiol oherwydd y tanwariant a ragwelir mewn benthyca, yn bennaf oherwydd Rhaglen Ysgolion yr 21ain Garrif.

	Amcangyfrif gwreiddiol 2020/21 £'000	Amcangyfrif diwygiedig 2020/21 £'000
<b>Dangosydd Darbodus – Gofyniad Cyllido Cyfalaf</b>		
GCC – Cronfa'r Cyngor	108,536	101,469
GCC – CRT	39,449	39,198
Cyfanswm GCC	147,985	140,667
<b>Symudiad Net yn y GCC</b>	<b>5,951<sup>1</sup></b>	<b>3,763<sup>2</sup></b>

<sup>1</sup> Symudiad rhwng amcangyfrif 2019/20 ac amcangyfrif 2020/21 yn y DSRhT 2020/21

<sup>2</sup> Symudiad rhwng ffigyrau gwirioneddol 2019/20 (yn unol â Datganiad Cyfrifon 2019/20) ac amcangyfrif diwygiedig 2020/21

<b>Rhagolwg GCC gwreiddiol</b>	<b>147,985</b>
Gostyngiad yn y Ddarpariaeth Refeniw Isaf rhwng rhagolygon DSRhT 2020/21 a'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf Ch 2 2020/21	154
Tanwariant mewn Benthycia Digefnogaeth ar gyfer y CRT yn 2020/21	-250
Tanwariant ar fenthyciad (gwahaniaeth rhwng rhagolygon DSRhT 2020/21 a'r rhagolygon diwygiedig ar gyfer Cyfalaf Ch2)	-3
Tanwariant mewn Benthycia Digefnogaeth yn 2019/20 a 2020/21 oherwydd yr oedi gyda Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif	-4,105
Tanwariant mewn Benthycia â Chefnogaeth yn 2019/20 oherwydd grant ychwanegol a dderbyniwyd yn 2019/20 fel cyllid amgen a leihaodd yr angen i Fenthycia â Chefnogaeth	-3,114
<b>Rhagolwg GCC diwygiedig</b>	<b>140,667</b>

## 7.5 Cyfyngiadau ar Weithgaredd Benthycia

**7.5.1** Y rheolaeth allweddol gyntaf dros weithgareddau trysorlys yw dangosydd darbodus i sicrhau, dros y tymor canol, mai dim ond at ddibenion cyfalaf y bydd benthycia net (benthyciadau llai buddsoddiadau). Ni ddylai benthycia allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, fod yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2020/21 a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthycia cynnar cyfyngedig yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo polisi ar gyfer benthycia cyn yr angen, a glynir wrtho os gwelir bod hynny'n ddarbodus. Y sefyllfa fenthycia gyfredol yw £135.650m, sy'n is na'r rhagolwg GCC ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd ariannol nesaf (gweler y tabl isod), felly, ni thorwyd y dangosydd hwn.

	2020/21 £'000	2021/22 £'000	2022/23 £'000
<b>GCC (rhagolwg diwedd blwyddyn)</b>	<b>140,667</b>	<b>163,266</b>	<b>168,970</b>

	Amcangyfrif gwreiddiol 2020/21 £'000	Y sefyllfa ar 30 Medi 2020 £'000	Amcangyfrif diwygiedig 2020/21 £'000
Benthycia allanol	139,232	135,650	128,924
Benthycia mewnol	8,753	5,017	11,743
Ynghyd â rhwymedigaethau tymor hir eraill	0	0	0
<b>GCC (y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn)</b>	<b>147,985</b>	<b>140,667</b>	<b>140,667</b>

**7.5.2** Ni ragwelir y bydd unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol o ran cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn.

**7.5.3** Mae dangosydd darbodus arall yn rheoli lefel gyffredinol y benthyca. Dyma'r Terfyn Awdurdodedig, sef y terfyn y gwaharddir benthyca y tu hwnt iddo, ac mae angen i'r Aelodau ei osod a'i ddiwygio, sef £183m ar hyn o bryd. Mae'n adlewyrchu lefel y benthyca y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er na ddymunir, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r angen benthyca uchaf a ddisgwylir gyda rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer symudiadau annisgwyl. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan Adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol	Dangosydd Gwreiddiol 2020/21	Y sefyllfa fenthyca gyfredol ar 30 Medi 2020	Amcangyfrif o'r sefyllfa fenthyca ar 31 Mawrth 2021
	£'000	£'000	£'000
Benthyca	178,000	135,650	128,924
Rhwymedigaethau tymor hir eraill	5,000	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>183,000</b>	<b>135,650</b>	<b>128,924</b>

## 8. Cydymffurfio â Therfynau Trysorlys a Darbodus

**8.1** Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i bennu a pharhau i adolygu'r terfynau benthyca fforddiadwy. Yn ystod yr hanner blwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi 2020, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn y dangosyddion trysorlys a darbodus a nodwyd yn Natganiad y Cyngor ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21. Ni ragwelir unrhyw anawsterau eleni nac yn y blynyddoedd i ddod o ran cydymffurfio â'r dangosyddion hyn.

Mae'r holl weithrediadau rheoli trysorlys hefyd wedi'u cynnal yn unol ag Arferion Rheoli Trysorlys y Cyngor, ond gweler paragraff 5.5 os gwelwch yn dda i gael esboniad ynghylch gwyro oddi wrth derfynau buddsoddi a gymeradwywyd.

## 9. Argymhelliad

**9.1** Ystyried cynnwys yr adroddiad a'i hanfon ymlaen i'w chysidro gan y Cyngor llawn ynghyd ag unrhyw sylwadau y dymuna'r Pwyllgor Gwaith ei wneud.



## Diweddariad ar yr Economi hyd yma a'r rhagolygon / Economic Update & Forecasts

As expected, the Bank of England's Monetary Policy Committee kept Bank Rate unchanged on 6<sup>th</sup> August. It also kept unchanged the level of quantitative easing at £745bn. Its forecasts were optimistic in terms of three areas:

- The fall in **GDP** in the first half of 2020 was revised from 28% to 23% (subsequently revised to -21.8%). This is still one of the largest falls in output of any developed nation. However, it is only to be expected as the UK economy is heavily skewed towards consumer-facing services – an area which was particularly vulnerable to being damaged by lockdown.
- The peak in the **unemployment rate** was revised down from 9% in Q2 to 7½% by Q4 2020.
- It forecast that there would be excess demand in the economy by Q3 2022 causing **CPI inflation** to rise above the 2% target in Q3 2022, (based on market interest rate expectations for a further loosening in policy). Nevertheless, even if the Bank were to leave policy unchanged, inflation was still projected to be above 2% in 2023.

It also squashed any idea of using **negative interest rates**, at least in the next six months or so. It suggested that while negative rates can work in some circumstances, it would be “less effective as a tool to stimulate the economy” at this time when banks are worried about future loan losses. It also has “other instruments available”, including QE and the use of forward guidance.

The MPC expected the £300bn of **quantitative easing** purchases announced between its March and June meetings to continue until the “turn of the year”. This implies that the pace of purchases will slow further to about £4bn a week, down from £14bn a week at the height of the crisis and £7bn more recently.

In conclusion, this would indicate that the Bank could now just sit on its hands as the economy was recovering better than expected. However, the MPC acknowledged that the “medium-term projections were a less informative guide than usual” and the minutes had multiple references to **downside risks**, which were judged to persist both in the short and medium term. One has only to look at the way in which second waves of the virus are now impacting many countries including Britain, to see the dangers. However, rather than a national lockdown, as in March, any spikes in virus infections are now likely to be dealt with by localised measures and this should limit the amount of economic damage caused. In addition, Brexit uncertainties ahead of the year-end deadline are likely to be a drag on recovery. The wind down of the initial generous furlough scheme through to the end of October is another development that could cause the Bank to review the need for more support for the economy later in the year. Admittedly, the Chancellor announced in late September a second six month package from 1<sup>st</sup> November of government support for jobs whereby it will pay up to 22% of the costs of retaining an employee working a minimum of one third of their normal hours. There was further help for the self-employed, freelancers and the hospitality industry. However, this is a much less generous scheme than the furlough package and will inevitably mean there will be further job losses from the 11% of the workforce still on furlough in mid September.

Overall, **the pace of recovery** is not expected to be in the form of a rapid V shape, but a more elongated and prolonged one after a sharp recovery in June through to August which left the economy 11.7% smaller than in February. The last three months of 2020 are now likely to show no growth as consumers will probably remain cautious in spending and uncertainty over the outcome of the UK/EU trade negotiations concluding at the end of the year will also be a headwind. If the Bank felt it did need to provide further support to recovery, then it is likely that the tool of choice would be more QE.

There will be some **painful longer term adjustments** as e.g. office space and travel by planes, trains and buses may not recover to their previous level of use for several years, or possibly ever. There is also likely to be a reversal of globalisation as this crisis has shown up how vulnerable long-distance supply chains are. On the other hand, digital services is one area that has already seen huge growth.

One key addition to **the Bank's forward guidance** was a new phrase in the policy statement, namely that "it does not intend to tighten monetary policy until there is clear evidence that significant progress is being made in eliminating spare capacity and achieving the 2% target sustainably". That seems designed to say, in effect, that even if inflation rises to 2% in a couple of years' time, do not expect any action from the MPC to raise Bank Rate – until they can clearly see that level of inflation is going to be persistently above target if it takes no action to raise Bank Rate.

The **Financial Policy Committee** (FPC) report on 6<sup>th</sup> August revised down their expected credit losses for the banking sector to "somewhat less than £80bn". It stated that in its assessment "banks have buffers of capital more than sufficient to absorb the losses that are likely to arise under the MPC's central projection". The FPC stated that for real stress in the sector, the economic output would need to be twice as bad as the MPC's projection, with unemployment rising to above 15%.

**US.** The incoming sets of data during the first week of August were almost universally stronger than expected. With the number of new daily coronavirus infections beginning to abate, recovery from its contraction this year of 10.2% should continue over the coming months and employment growth should also pick up again. However, growth will be dampened by continuing outbreaks of the virus in some states leading to fresh localised restrictions. At its end of August meeting, the Fed tweaked **its inflation target** from 2% to maintaining an average of 2% over an unspecified time period i.e. following periods when inflation has been running persistently below 2%, appropriate monetary policy will likely aim to achieve inflation moderately above 2% for some time. This change is aimed to provide more stimulus for economic growth and higher levels of employment and to avoid the danger of getting caught in a deflationary "trap" like Japan. It is to be noted that inflation has actually been under-shooting the 2% target significantly for most of the last decade so financial markets took note that higher levels of inflation are likely to be in the pipeline; long term bond yields duly rose after the meeting. The Fed also called on Congress to end its political disagreement over providing more support for the unemployed as there is a limit to what monetary policy can do compared to more directed central government fiscal policy. The FOMC's updated economic and rate projections in mid-September showed that officials expect to leave the fed funds rate at near-zero until at least end-2023 and probably for another year or two beyond that. There is now some expectation that where the Fed has led in changing its inflation target, other major central banks will follow. The increase in tension over the last year between the US and China is likely to lead to a lack of momentum in progressing the initial positive moves to agree a phase one trade deal.

**EU.** The economy was recovering well towards the end of Q2 after a sharp drop in GDP, (e.g. France 18.9%, Italy 17.6%). However, the second wave of the virus affecting some countries could cause a significant slowdown in the pace of recovery, especially in countries more dependent on tourism. The fiscal support package, eventually agreed by the EU after prolonged disagreement between various countries, is unlikely to provide significant support and quickly enough to make an appreciable difference in weaker countries. The ECB has been struggling to get inflation up to its 2% target and it is therefore expected that it will have to provide more monetary policy support through more quantitative easing purchases of bonds in the absence of sufficient fiscal support.

**China.** After a concerted effort to get on top of the virus outbreak in Q1, economic recovery was strong in Q2 and has enabled it to recover all of the contraction in Q1. However, this was achieved by major central government funding of yet more infrastructure spending. After years of growth having been focused on this same area, any further spending in this area is likely to lead to increasingly weaker economic returns. This could, therefore, lead to a further misallocation of resources which will weigh on growth in future years.

**Japan.** There are some concerns that a second wave of the virus is gaining momentum and could dampen economic recovery from its contraction of 8.5% in GDP. It has been struggling to get out of a deflation trap for many years and to stimulate consistent significant GDP growth and to get inflation up to its target of 2%, despite huge monetary and fiscal stimulus. It is also making little progress on fundamental reform of the economy. The resignation of Prime Minister Abe is not expected to result in any significant change in economic policy.

**World growth.** Latin America and India are currently hotspots for virus infections. World growth will be in recession this year. Inflation is unlikely to be a problem for some years due to the creation of excess production capacity and depressed demand caused by the coronavirus crisis.

*Rhan o gyngor dderbyniwyd gan / An extract from advice received from: Link Asset Services*

## Sylwadau ar y rhagolygon diweddaraf ar raddfeydd llog / Commentary on the latest interest rates forecasts

The coronavirus outbreak has done huge economic damage to the UK and economies around the world. After the Bank of England took emergency action in March to cut Bank Rate to first 0.25%, and then to 0.10%, it left Bank Rate unchanged at its meeting on 6<sup>th</sup> August (and the subsequent September meeting), although some forecasters had suggested that a cut into negative territory could happen. However, the Governor of the Bank of England has made it clear that he currently thinks that such a move would do more damage than good and that more quantitative easing is the favoured tool if further action becomes necessary. As shown in the forecast table above, no increase in Bank Rate is expected within the forecast horizon ending on 31<sup>st</sup> March 2023 as economic recovery is expected to be only gradual and, therefore, prolonged.

**GILT YIELDS / PWLB RATES.** There was much speculation during the second half of 2019 that bond markets were in a bubble which was driving bond prices up and yields down to historically very low levels. The context for that was heightened expectations that the US could have been heading for a recession in 2020. In addition, there were growing expectations of a downturn in world economic growth, especially due to fears around the impact of the trade war between the US and China, together with inflation generally at low levels in most countries and expected to remain subdued. Combined, these conditions were conducive to very low bond yields. While inflation targeting by the major central banks has been successful over the last 30 years in lowering inflation expectations, the real equilibrium rate for central rates has fallen considerably due to the high level of borrowing by consumers. This means that central banks do not need to raise rates as much now to have a major impact on consumer spending, inflation, etc. The consequence of this has been the gradual lowering of the overall level of interest rates and bond yields in financial markets over the last 30 years. Over the year prior to the coronavirus crisis, this has seen many bond yields up to 10 years turn negative in the Eurozone. In addition, there has, at times, been an inversion of bond yields in the US whereby 10 year yields have fallen below shorter term yields. In the past, this has been a precursor of a recession. The other side of this coin is that bond prices are elevated as investors would be expected to be moving out of riskier assets i.e. shares, in anticipation of a downturn in corporate earnings and so selling out of equities.

Gilt yields had therefore already been on a generally falling trend up until the coronavirus crisis hit western economies during March. After gilt yields spiked up during the initial phases of the health crisis in March, we have seen these yields fall sharply to unprecedented lows as major western central banks took rapid action to deal with excessive stress in financial markets, and started massive quantitative easing purchases of government bonds: this also acted to put downward pressure on government bond yields at a time when there has been a huge and quick expansion of government expenditure financed by issuing government bonds. Such unprecedented levels of issuance in “normal” times would have caused bond yields to rise sharply. At the close of the day on 30<sup>th</sup> September, all gilt yields from 1 to 6 years were in negative territory, while even 25-year yields were at only 0.76% and 50 year at 0.60%.

From the local authority borrowing perspective, HM Treasury imposed **two changes of margins over gilt yields for PWLB rates** in 2019-20 without any prior warning. The first took place on 9<sup>th</sup> October 2019, adding an additional 1% margin over gilts to all PWLB period rates. That increase was then at least partially reversed for some forms of borrowing on 11<sup>th</sup> March 2020, but not for mainstream General Fund capital schemes, at the same time as the Government announced in the Budget a programme of increased infrastructure expenditure. It also announced that there would be a consultation with local authorities on possibly further amending these margins; this was to end on 4<sup>th</sup> June, but that date was subsequently put back to 31<sup>st</sup> July. It is clear HM Treasury will no longer allow local authorities to borrow money from the PWLB to purchase commercial property if the aim is solely to generate an income stream (assets for yield).

Following the changes on 11<sup>th</sup> March 2020 in margins over gilt yields, the current situation is as follows:-

- **PWLB Standard Rate** is gilt plus 200 basis points (G+200bps)
- **PWLB Certainty Rate** is gilt plus 180 basis points (G+180bps)
- **PWLB HRA Standard Rate** is gilt plus 100 basis points (G+100bps)

- **PWLB HRA Certainty Rate** is gilt plus 80bps (G+80bps)
- **Local Infrastructure Rate** is gilt plus 60bps (G+60bps)

It is possible that the non-HRA Certainty Rate will be subject to revision downwards after the conclusion of the PWLB consultation; however, the timing of such a change is currently an unknown, although it would be likely to be within the current financial year.

As the interest forecast table for PWLB certainty rates, (gilts plus 180bps), above shows, there is likely to be little upward movement in PWLB rates over the next two years as it will take economies, including the UK, a prolonged period to recover all the momentum they have lost in the sharp recession caused during the coronavirus shut down period. Inflation is also likely to be very low during this period and could even turn negative in some major western economies during 2020/21.

### **The balance of risks to the UK**

- The overall balance of risks to economic growth in the UK is probably relatively even, but is subject to major uncertainty due to the virus.
- There is relatively little UK domestic risk of increases or decreases in Bank Rate and significant changes in shorter term PWLB rates. The Bank of England has effectively ruled out the use of negative interest rates in the near term and increases in Bank Rate are likely to be some years away given the underlying economic expectations. However, it is always possible that safe haven flows, due to unexpected domestic developments and those in other major economies, could impact gilt yields, (and so PWLB rates), in the UK.

### **Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:**

- **UK** - second nationwide wave of virus infections requiring a national lockdown
- **UK / EU trade negotiations** – if it were to cause significant economic disruption and a fresh major downturn in the rate of growth.
- **UK - Bank of England** takes action too quickly, or too far, over the next three years to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.
- A resurgence of the **Eurozone sovereign debt crisis**. The ECB has taken monetary policy action to support the bonds of EU states, with the positive impact most likely for “weaker” countries. In addition, the EU recently agreed a €750bn fiscal support package. These actions will help shield weaker economic regions for the next year or so. However, in the case of Italy, the cost of the virus crisis has added to its already huge debt mountain and its slow economic growth will leave it vulnerable to markets returning to taking the view that its level of debt is unworkable. There remains a sharp divide between northern EU countries favouring low debt to GDP and annual balanced budgets and southern countries who want to see jointly issued Eurobonds to finance economic recovery. This divide could undermine the unity of the EU in time to come.
- Weak capitalisation of some **European banks**, which could be undermined further depending on extent of credit losses resultant of the pandemic.
- **German minority government & general election in 2021**. In the German general election of September 2017, Angela Merkel’s CDU party was left in a vulnerable minority position dependent on the fractious support of the SPD party, as a result of the rise in popularity of the anti-immigration AfD party. The CDU has done badly in subsequent state elections but the SPD has done particularly badly. Angela Merkel has stepped down from being the CDU party leader but she intends to remain as Chancellor until the general election in 2021. This then leaves a major question mark over who will be the major guiding hand and driver of EU unity when she steps down.
- **Other minority EU governments**. Austria, Sweden, Spain, Portugal, Netherlands, Ireland and Belgium also have vulnerable minority governments dependent on coalitions which could prove fragile.
- **Austria, the Czech Republic, Poland and Hungary** now form a strongly anti-immigration bloc within the EU. There has also been a rise in anti-immigration sentiment in Germany and France.

- **Geopolitical risks**, for example in China, Iran or North Korea, but also in Europe and other Middle Eastern countries, which could lead to increasing safe haven flows.
- **US – the Presidential election in 2020**: this could have repercussions for the US economy and SINO-US trade relations.

#### **Upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates**

- **UK** - stronger than currently expected recovery in UK economy.
- **Post-Brexit** – if an agreement was reached that removed the majority of threats of economic disruption between the EU and the UK.
- The **Bank of England is too slow** in its pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflationary pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.

**Crynodeb Benthycyca a Buddsoddi – Chwarteroedd 1 a 2 2020/21**  
**Borrowing and Investment Summary – Quarters 1 and 2 2020/21**

	30 Medi / Sept 2020		30 Mehefin / June 2020	
	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)	£'m	% (talwyd ar fenthycyca a dderbyniwyd ar fuddsoddi) / % (paid on borrowing and received on investment)
Benthycyca – graddfa sefydlog Borrowing – fixed rate				
BBGC / PWLB	132.9	4.24	132.9	4.24
Dim BBGC /Non-PWLB	2.7	0	2.7	0
Benthycyca – graddfa amrywiol Borrowing – variable rate	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – galw hyd at 30 diwrnod Deposits – Call to 30 days	28.7	0.03	44.6	0.02
Adneuon – Tymor sefydlog < 1 bl. Deposits – Fixed Term < 1 year	13.5	0.15	Dim / Nil	d/b / n/a
Adneuon – Tymor sefydlog 1 bl. + Deposits – Fixed Term 1 year +	Dim / Nil	d/b / n/a	Dim / Nil	d/b / n/a
Cyfanswm Adneuon Total Deposits	44.2	0.07	44.6	0.02
Adneuon Uchaf yn y Chwarter Highest Deposits in the Quarter	51.6	d/b / n/a	56.9	d/b / n/a
Adneuon Isaf yn y Chwarter Lowest Deposits in the Quarter	42.2	d/b / n/a	37.2	d/b / n/a
Cyfartaledd Adneuon yn y Chwarter Average Deposits in the Quarter	48.2	0.04	48.0	0.18

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuron a ddelir gyda phob un ar 30 Medi 2020\***  
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 30 September 2020\***

Grŵp Bancio/ Banking Group	Sefydliad/ Institution	Adneuron / Deposit £'000	Hyd (Galw/ tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**)	Cyfnod (O / I) / Period (From / To)	Graddfa Dychweliad/ Rate of Return %	Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating	Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's Long Term Rating	Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's Short Term Rating	Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration
Lloyds Banking Group plc	Bank of Scotland plc	7.207	Galw/ Call	n/a	0.00	A+	F1	Aa3	P-1	A+	A-1	Oren – 12 mis / Orange -12 months
Santander Group plc	Santander UK plc	7.490	Galw/ Call	n/a	0.12	A+	F1	Aa3	P-1	A	A-1	Coch – 6 mis / Red - 6 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	The Royal Bank of Scotland plc (Rhan / Gwladoli)	0.002	Galw/ Call	n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
The Royal Bank of Scotland Group plc	National Westminster Bank Deposit	14.025	Galw/ Call	n/a	0.01	A+	F1	A1	P-1	A	A-1	Glas - 12 mis / Blue – 12 months
Cyngor Bwrdeistref Blackpool	Cyngor Bwrdeistref Blackpool	5.000	Sefydlog/ Fixed	30/07/20 - 23/10/20	0.15	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyngor Thurrock	Cyngor Thurrock	5.000	Sefydlog/ Fixed	11/09/20 – 11/01/21	0.15	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley	Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Dudley	3.500	Sefydlog/ Fixed	25/09/20 – 23/12/20	0.15	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a

\* Ceir y Rhestr Benthycy Cymeradwyedig yn Atodiad 8 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21/Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol/The Approved Lending List can be found at Appendix 8 of the 2020/21 Treasury Management Strategy Statement / Annual Investment Strategy

\*\* Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.



**Gwledydd cymeradwy ar gyfer buddsoddi**  
**Approved countries for investments**

*Yn seiliedig ar y gyfradd credyd sofran isaf sydd ar gael*  
*Based upon lowest available sovereign credit rating*

AAA

- Awstralia / Australia
- Denmarc / Denmark
- Yr Almaen / Germany
- Lwcsembwrg / Luxembourg
- Yr Iseldiroedd / Netherlands
- Norwy / Norway
- Singapôr / Singapore
- Sweden / Sweden
- Y Swistir / Switzerland

AA+

- Canada
- Y Ffindir / Finland
- U.D.A. / U.S.A.

AA

- Abu Dhabi (UAE)
- Frainc / France


AA-

- Gwlad Belg / Belgium
- Hong Kong
- Qatar
- D.U. / U.K.


Graffiau Ychwanegol / Additional Graphs

Cymhariaeth o baramedrau benthyca â benthyca allanol gwirioneddol / Comparison of borrowing parameters to actual external borrowing

PWLB Certainty Rate Variations 1.4.20 to 30.9.2020



Bank Rate vs LIBID rates % 1.4.20 - 30.9.20







<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>PWYLLGOR GWAITH</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>14 RHAGFYR 2020</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>PREMIYMAU'R DRETH GYNGOR – AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG TYMOR HIR (ADOLYGIAD)</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO CYLLID)</b>
<b>Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth:</b>	<b>MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>GERAINT H. JONES (RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU)</b>
Ffôn:	01248 752651
E-bost:	<a href="mailto:ghifi@ynysmon.gov.uk">ghifi@ynysmon.gov.uk</a>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>AMHERTHNASOL</b>
<b>A –Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau</b>	
<b>ARGYMHELLION</b>	
<p>1. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn sy'n adolygu gweithrediad Premiwm y Dreth Gyngor ers i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor llawn) benderfynu ar 27 Chwefror 2019 i gynyddu premiymau'r Dreth Gyngor o 1 Ebrill 2019 i 100% ar gyfer eiddo gwag tymor hir a 35% ar gyfer ail gartrefi. Nodi effaith y pandemig Covid-19 ar sylfaen y Dreth Gyngor a phremiymau'r Dreth Gyngor.</p>	
<b>AMRYWIOL OPSIYNAU</b>	
Ystyried yr opsiynau a ganlyn ac argymell i'r Cyngor llawn gynigion i'w mabwysiadu:-	
<p>2. Parhau gyda'r polisi, heb ei newid, a chynnal adolygiad pellach ar ddyddiad y mae'r Pwyllgor Gwaith/y Cyngor llawn yn ei ddewis <b>NEU</b></p>	
<p>3. Penderfynu –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• a ddylid lleihau'r premiwm, a ddylai aros yr un fath ynteu gynyddu ac i ba lefelau canran?</li> <li>• a ddylai'r premiwm aros yr un fath i eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi ynteu a ddylid parhau i ddefnyddio gwahanol gyfraddau canran?</li> <li>• a ddylid neilltuo canran uwch o'r incwm a godir o'r premiymau yn hytrach na chynyddu incwm y Dreth Gyngor i gwrdd â chostau gwasanaeth cyffredinol?</li> <li>• a ddylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn.</li> </ul>	
<p>4. Ystyried a ddylai cyllid ychwanegol y bydd y premiwm yn ei greu gael ei neilltuo i'r cynlluniau a fwriadwyd i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf neu barhau i ddarparu'r cyllid fel y gwneir ar hyn o bryd i gyflawni'r ddaau gynllun.</p> <p>(Rhydd <b>Atodiad A</b> fanylion yr incwm a amcangyfrifir a fyddai'n berthnasol ar gyfer canrannau premiwm gwahanol ar gyfer eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi).</p>	

(Rhydd **Atodiad B** fanylion y premiymau a osodwyd gan Awdurdodau eraill yng Nghymru a ddaw i rym o 1 Ebrill 2020).

## **Y RHESYMAU A'R CEFNDIR**

Ar 10 Mawrth 2016, cytunodd y Cyngor llawn i wneud i ffwrdd ag unrhyw ostyngiadau a roddir i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer) a defnyddio treth gyngor uwch (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) i ddod i rym o 1 Ebrill 2017. Gosododd y Cyngor llawn bremiwm y Dreth Gyngor ar 25% o gyfradd safonol y dreth gyngor i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer).

Ar 27 Chwefror 2019 cytunodd y Cyngor llawn (yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a ddenodd y nifer uchaf erioed o ymatebion a dderbyniwyd ynghylch y broses gosod cyllideb) i barhau i wneud i ffwrdd ag unrhyw ostyngiadau a roddir i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer). Penderfynwyd cynyddu'r dreth gyngor uwch (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) a fyddai'n dod i rym o 1 Ebrill 2019. O'r dyddiad hwn, cytunodd y Cyngor llawn i osod premiwm y Dreth Gyngor ar 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor i anheddau gwag tymor hir ac ar 35% ar gyfer anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd (a elwir yn ail gartrefi fel arfer).

Yn awr, mae Arweinydd y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith wedi gofyn am adolygiad pellach mewn perthynas â phremiymau'r Dreth Gyngor ers penderfyniad diwethaf y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019 gan roi ystyriaeth, hefyd, i effaith y pandemig Covid-19, os o gwbl, ar sylfaen Dreth Gyngor y Cyngor ac unrhyw symudiadau o Restr Brisio'r Dreth Gyngor i'r Rhestr Trethi Busnes – yn arbennig ar gyfer ail gartrefi/llety gwyliau.

Mewn perthynas â chais Arweinydd y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith, bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar -

- sefydlu a oedd y premiymau a bennwyd wedi cwrdd â nodau'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn pan y'u cyflwynwyd; ac
- yn sgil hyn, a oes angen i'r Pwyllgor Gwaith ystyried amrywio neu ddiddymu lefelau'r premiwm a bennwyd pan fo'r Cyngor llawn yn gosod ei Dreth Gyngor am 2021/22; a
- pe pennid bod angen amrywio neu ddiddymu lefelau'r premiwm, a fyddai'r premiymau diwygiedig yn dod i rym o 1 Ebrill 2021 ymlaen neu o ddyddiad diweddarach.

Caiff y Pwyllgor Gwaith ei atgoffa o nod Llywodraeth Cymru pan roes yr hawl i awdurdodau lleol godi premiwm ar ben y gyfradd safonol – roedd yn arf i gynorthwyo awdurdodau lleol i:-

1. Dod â chartrefi gwag tymor hir yn ôl i ddefnydd er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
2. Cefnogi awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol.

Wrth ystyried p'un ai ddylid codi premiwm ai peidio, roedd rhaid rhoi ystyriaeth i'r nodau hyn a, hefyd, i'r angen penodol am dai a'r amgylchiadau yn ardal yr Awdurdod.

Ymhlith y ffactorau a fu'n gymorth i'r Cyngor llawn benderfynu a ddylid codi tâl premiwm ai peidio roedd -

- niferoedd a chanrannau anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi yn ei ardal;
- dosbarthiad anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi a thai eraill yn yr Awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol;
- effaith bosib ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth;
- patrymau galw am dai fforddiadwy a faint oedd ar gael;
- effaith bosib ar y gwasanaethau cyhoeddus lleol a'r gymuned leol;
- mesurau eraill sydd ar gael i'r Awdurdod i gynyddu'r cyflenwad tai a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd.

O ran goblygiadau ariannol datgymhwyso gostyngiadau a phennu premiymau, gall yr Awdurdod gadw unrhyw gronfeydd ychwanegol a gynhyrchir trwy weithredu'r premiymau i'w gwario fel y dymunai. Pasiwyd rheoliadau sylfaen drethu newydd gan Lywodraeth Cymru gan wneud i ffwrdd â'r angen i addasu Grant Cynnal Refeniw'r Awdurdod yn sgil cynnydd yn sylfaen y dreth. Gallai'r Awdurdod wario'r cyllid ychwanegol a grëir ganddo fel y dymunai, ond rhoes Llywodraeth Cymru anogaeth i'r Awdurdod ddefnyddio unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir i gynorthwyo i ddiwallu angen lleol am dai, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

O fod yn ymwybodol o fwriadau polisi'r premiymau, ym mis Tachwedd 2017, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith bolisi i weithredu dau gynllun newydd i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf lleol, a'u cyllido o'r premiwm ychwanegol:-

- a) Grant i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu cartref gwag; a
- b) Benthyciad ecwiti i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf.

I ddechrau, roedd y polisi wedi'i gyfyngu i ardaloedd cyngor tref / cymuned penodedig, a oedd â niferoedd uchaf yr ail gartrefi a/neu nifer isaf y cartrefi ar brisiau tai chwarterl isaf. Fodd bynnag, oherwydd nifer fawr o ymholiadau gan brynwyr tro cyntaf cymwys oedd yn prynu o'r tu allan i'r ardaloedd penodedig hyn, estynnwyd y cynllun ar draws Ynys Môn, gan roi cyfleoedd cyfartal a theg i bobl brynu cartref. (Penderfyniad gweithredol a gymerwyd gan yr Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau, Chwefror 2018).

Wrth ystyried cyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor, roedd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn rhoi sylw dyledus i risgiau amlwg a grynhoir isod. Maent yn cael eu hadolygu yn awr -

- *Nid oedd data'r Dreth Gyngor ar anheddau gwag tymor hir ac ail gartrefi wedi'u diweddarau'n rheolaidd ers i'r Cyngor llawn osod polisi na fyddai unrhyw ostyngiadau'n cael eu rhoi ar gyfer y cyfryw anheddau. Mae'r Dreth Gyngor safonol lawn yn daladwy ar y cyfryw anheddau. Sefydlodd adolygiad a gynhaliwyd yn 2015 gan gwmni gwirio credyd oedd yn gwirio'u cofnodion gyda chofnodion y Cyngor fod gan 22% i 25% o anheddau gwag tymor hir neu ail gartrefi gofnodion y Dreth Gyngor risg canolig i uchel o fod yn cael eu meddiannu fel unig neu brif breswylfa unigolion. Ni ellir codi premiwm Dreth Gyngor ar y cyfryw eiddo ac, felly, roedd perygl y gellid gorliwio amcangyfrifiad o'r incwm ychwanegol a gynhyrchir.*

**DIWEDDARIAD:** ni chafodd y risg hwn ei wireddu. Mae incwm o breimiymau yn parhau i fod yn uwch na'r incwm a gyllidebwyd. Fodd bynnag, daeth dwy duedd i'r amlwg oherwydd Covid-19 - yn gyntaf symud eiddo i'r rhestr brisio trethi busnes er mwyn denu grantiau Covid-19 yn gysylltiedig â threthi busnes. Yn ail, mewn perthynas ag eiddo gwag tymor hir, mae oedi o ran cwblhau gwaith sydd ar y gweill (fel sy'n wir am eiddo newydd) - a achoswyd yn bennaf oherwydd y cyfnod clo cyntaf dan Covid-19 ond, hefyd, oherwydd y gwelwyd oedi wrth dderbyn cyflenwadau ac oedi yn gysylltiedig â chyfleustodau cyhoeddus / cynllunio wrth i sefydliadau/busnesau newid eu harferion gweithio oherwydd Covid-19. Mae hyn wedi arwain at oedi wrth gwblhau eiddo a gwaith adnewyddu ac mae hynny wedi arwain at osod y premiwm 100% ar yr eiddo. Er gwaetha'r tueddiadau hyn sy'n groes i'w gilydd, mae incwm y Premiwm Dreth Gyngor ar gyfer 2019/20 a 2020/21, o gymharu â'r cyllidebau, fel a ganlyn -

Blwyddyn	Incwm a gyllidebwyd	Incwm Gwirioneddol	Gwarged
2019/20	£1,444,000	£1,961,904	+£517,705 <sup>1</sup>
2020/21 @ 31.10.20	£1,392,640	£2,083,496	+£690,856 <sup>1*</sup>

<sup>1</sup>mae'r ffigyrau a roddir yn cynnwys praesept yr heddlu a phraesept lleol

\*addaswyd hyn mewn perthynas â'r gostyngiad dewisol lleol rhag talu Premiwm y Dreth Gyngor oherwydd Covid-19, a gymeradwywyd gan Arweinydd y Cyngor ym mis Mai 2020.

Mae'r cyllidebau a bennwyd yn adlewyrchu amcangyfrif mwy gofalus yn seiliedig ar y risgiau ymddangosiadol a nodwyd.

- *A fyddai cynnydd yn y perchnogion sy'n gwrthod neu'n methu â thalu premiwm y Dreth Gyngor?*

**DIWEDDARIAD:** mewn perthynas â phremiwm y Dreth Gyngor, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu fod perchnogion wedi gwrthod neu'n methu â thalu premiwm y Dreth Gyngor, ar wahân i achosion unigol. Oherwydd effaith Covid-19, yn ystod 2020/21, mae'r Cyngor hwn wedi gweld gostyngiad cyffredinol o -2.05% (swm o £953,312) yng nghyfradd casglu'r Dreth Gyngor yn ystod y flwyddyn (ar 31.10.20) o gymharu â chyfartaledd o -1.89% yng Nghymru. Ni roddwyd camau ar waith i adennill y Dreth Gyngor tan fis Awst 2020 eleni ac mae gwysion wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y gwrandawriad cyntaf yn llys yr ynadon ym mis Rhagfyr, yn ymwneud â chyfanswm o 1,700 o achosion gyda gwerth o £1.8m h.y. roedd bron i 50% o'r ôl-ddyledion yn ymwneud â balansau blynyddoedd blaenorol a fyddai wedi derbyn llythyrau atgoffa ym mis Ebrill/Mai bob blwyddyn.

Felly, y prif reswm am y cynnydd mewn ôl-ddyledion yw Covid-19 yn hytrach na phremiwm y Dreth Gyngor ei hun. Fodd bynnag, mae'n werth nodi fod gan oddeutu 160 o achosion (swm o £476k) ôl-ddyledion o fwy na 18 mis ac roedd nifer o'r balansau dyledion uwch yn cynnwys premiwm y Dreth Gyngor (£180k). Fodd bynnag, roedd y mwyafrif ohonynt (oedd â dyledion o fwy na £3k) yn eiddo gwag tymor hir y gellir codi premiwm Dreth Gyngor o 100% arnynt a oedd yn aros i'r ystâd gael ei rhannu yn dilyn marwolaeth y perchennog/meddiannydd blaenorol.

- *A fyddai cynnydd yn nifer y perchenogion sy'n osgoi premiwm y Dreth Gyngor wrth, er enghraifft, drosglwyddo defnydd i drethi busnes, gan newid o ail gartrefi i dai gwag tymor hir, ceisio marchnata'r eiddo i'w werthu neu ei rentu i hawlio eithriad, honni y caiff yr annedd ei meddiannu neu newid unig a phrif breswylfa?*



**DIWEDDARIAD:** mae tystiolaeth yn awgrymu y bu cynnydd yn nifer y perchnogion sy'n trosglwyddo eiddo domestig i drethi busnes yn ystod 2020/21 – y cymhelliant dros wneud hynny oedd er mwyn hawlio grantiau Covid-19 a oedd ar gael ar sail y cyfraddau busnes sy'n daladwy. Nid oes tystiolaeth fod eiddo'n cael ei farchnata i'w werthu neu ei rentu i hawlio eithriad, ar wahân i arferion masnachol arferol.

Mae rhywfaint o dystiolaeth ragarweiniol fwy diweddar ond, unwaith eto, oherwydd Covid-19 yn bennaf, yn awgrymu fod mwy o geisiadau'n cael eu gwneud i newid triniaeth anheddau o fod yn ail gartrefi i fod yn unig neu brif breswylfeydd. Mae trethdalwyr yn darparu tystiolaeth eu bod yn gweithio o gartref, eu bod wedi cofrestru ar y gofrestr etholiadol, eu bod wedi cofrestru â meddyg teulu, cyfeiriadau cofrestru cerbydau'r DVLA, eu bod treulio mwy o amser yn Ynys Môn ac yn ymweld â swyddfeydd gwaith yn llai aml ac ati. Bydd hyn yn cael ei fonitro i weld a yw'r patrwm yn datblygu i fod yn rhywbeth mwy parhaol.

Yn ystod 2020/21 derbyniwyd oddeutu 250 o geisiadau i hepgor talu premiwm y Dreth Gyngor gan fod trethdalwyr wedi cael eu hatal rhag ymweld ag eiddo yn ystod y cyfyngiadau Covid-19. Ar y cyfan, mae'r ceisiadau hyn am eithriad yn cael eu gwrthod (ac eithrio rhai cabannau ar barciau carafanau) gan fod ond teithio i eiddo o'r fath oedd wedi cael ei wahardd am gyfnodau penodol yn unig dan y cyfyngiadau Covid-19. Dyfarnwyd rhyddhad dewisol rhag talu'r premiwm yn unol â newidiadau i'r polisi cymorth dewisol a wnaethpwyd gan Arweinydd y Cyngor, a oedd yn cael effaith ar eiddo gwag tymor hir yn bennaf yn hytrach nag ail gartrefi. Erbyn 31 Hydref 2020, roedd bron i £65k o ryddhad premiwm Dreth Gyngor wedi cael ei roi.

Mae 5 trethdalwr wedi cyflwyno apêl ffurfiol i'r Tribiwnlys Prisio am i'r Cyngor wrthod caniatáu eithriad Dosbarth G - ni phennwyd dyddiadau ar gyfer gwrandawiadau hyd yma.

- *A fyddai hyn yn arwain at ostyngiad yng Nghofrestr Dreth Gyngor eiddo domestig h.y. sylfaen y dreth?*

**DIWEDDARIAD:** wrth gymharu cyfrifiad sail y dreth (ar 31 Hydref) ar gyfer 2020/21 ac ar gyfer 2021/22, bu gostyngiad o 23 yn nifer yr eiddo trethadwy (gyda chynnydd o 65 eiddo ym Mand A a B ond gostyngiad o 88 eiddo yn y bandiau eraill). Yn ôl pob tebyg, y rheswm am y symudiadau hyn yw bod eiddo yn symud i drethi busnes ond bod y Cyngor hefyd yn datblygu tai fforddiadwy sydd fel arfer yn disgyn i Fand A a B. **Os bydd y duedd hon yn parhau, bydd sylfaen y dreth yn parhau i ostwng.**

Mae sylfaen y dreth at ddibenion gosod y dreth ar gyfer 2021/22 yn parhau ar yr un lefel â 2020/21 ar y cyfan, oherwydd bod mwy o eiddo yn dod yn ail gartrefi er bod nifer ohonynt yn symud i'r rhestr trethi busnes. Fodd bynnag, bu gostyngiad o 158 eiddo yn nifer yr eiddo sy'n talu'r Dreth Gyngor safonol a bu cynnydd o 23 yn nifer yr eiddo y gellir codi premiwm arnynt. Mae hyn yn bennaf ar gyfer bandiau C i F. Tra bydd nifer ohonynt yn derbyn gostyngiad person sengl, bydd sawl un yn y ffigwr hwn wedi symud i fod yn ail gartrefi.

Bu cynnydd o 58 yn nifer yr eiddo gwag tymor hir ac mae angen esbonio'r ffigur hwn. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae tystiolaeth i awgrymu fod gwaith sy'n cael ei wneud i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd wedi cael ei ohirio oherwydd y pandemig Covid-19, gydag adeiladwyr ddim yn gweithio ar safleoedd, problemau gyda chyflenwadau ac arferion gwaith Covid-19 gyfeillgar a gyflwynwyd gan gwmnïau cyfleustodau a chynllunwyr ar gyfer ymweliadau safle/cysylltu gwasanaethau yn golygu bod oedi o ran dyddiadau cwblhau gwaith. Pan fydd gwaith ar yr eiddo'n cael ei gwblhau ac wrth iddynt ddod yn ôl i ddefnydd yn ystod 2021/22, bydd yn creu symudiad sylweddol yn y debyd gan y bydd eiddo o'r fath yn symud yn ôl i dalu'r Dreth Gyngor safonol. Ar hyn o bryd, gellir codi'r premiwm eiddo gwag tymor hir o 100% ar eiddo o'r fath ar ôl 12 mis. Caniatawyd rhyddhad rhag talu'r premiwm gan Arweinydd y Cyngor am y cyfnod 26 Mawrth 2020 i 26 Medi 2020. Ers y dyddiad hwn, rhaid talu'r premiwm llawn o 100% ar nifer o'r eiddo gwag tymor hir hyn.

Erbyn diwedd 31 Hydref 2020 amcangyfrifir fod sylfaen y dreth gyffredinol a bennwyd at ddibenion gosod y dreth ar gyfer 2020/21 wedi cynyddu 0.05%, o 31,532.53 i 31,548.20 - ond mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn yr eiddo y gellir codi premiwm arno. Dylid cofio fod nifer yr eiddo trethadwy wedi gostwng yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dengys y ffigurau yn y tabl isod y symudiad yn yr eiddo cyfwerth â Band D fel y mae'n effeithio ar sylfaen y dreth ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Hydref 2020. Mae'r ffigurau hyn yn berthnasol i flwyddyn ariannol 2020/21 yn unig, h.y. nid yw addasiadau debyd wedi eu hôl-ddyddio ar gyfer blynedd blaenorol wedi'u cynnwys, yn ogystal ag elfen y premiwm a gostyngiadau lleol. Gofynnir i Aelodau nodi hefyd fod y ffigurau ar gyfer cyfrifo sail y dreth uchod yn cynnwys rhagdybiaethau mewn perthynas ag addasiadau debyd y rhagwelir y byddant yn dod i law yn ystod y misoedd sy'n weddill o'r flwyddyn (a'r flwyddyn nesaf) a darpariaeth ychwanegol ar gyfer dyledion drwg y gallai fod ei hangen. Dengys y tabl isod symudiadau eiddo cyfwerth â Band D a effeithiodd ar 7 mis cyntaf 2020/21 -

Disgrifiad	Nifer yr eiddo cyfwerth â Band D
Eiddo newydd – band yn cynyddu – ailagor cyfrifon	+165
Cael gwared â'r eiddo – band yn gostwng	-210
Meddiannaeth newydd	+1,576
Hen feddiannaeth	-1,610
<b>Cyfanswm Addasiadau Debyd Gros</b>	<b>-79</b>
Gostyngiad i'r anabl	-3
Eithriadau	-76
Gostyngiad i Eiddo	+1
Gostyngiad Personol	+3
<b>Cyfanswm Addasiadau Debyd Net</b>	<b>-75</b>
<b>Cyfanswm Addasiadau Net</b>	<b>-154</b>

- *A fyddai hyn yn cael effaith ar enw da'r Cyngor?*

**DIWEDDARIAD:** mewn perthynas â'r premiwm o 100% ar eiddo gwag tymor hir, diwygiodd y Pwyllgor Gwaith bolisi gostyngiadau dewisol y Dreth Gyngor i ganiatáu i'r premiwm gael ei hepgor pan fydd gwaith yn cael ei wneud i ddod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd os na fu neb yn byw ynddo am fwy na dwy flynedd cyn hynny. Oherwydd Covid-19, gwelwyd oedi o ran cwblhau gwaith adnewyddu sy'n golygu fod ychydig o drethdalwyr yn gorfod talu'r premiwm lle na fyddai'n rhaid iddynt wneud hynny fel arall. Mae hyn yn wir hyd yn oed ar ôl gwneud y newidiadau i'r polisi a gyhoeddwyd gan yr Arweinydd ym mis Mai 2020. Ar hyn o bryd, byddai'n groes i bolisi gostyngiadau dewisol y Cyngor i swyddogion ganiatáu estyniad ar gyfer peidio â chodi'r premiwm dan y fath amgylchiadau.

Fel y cyfeiriwyd eisoes, derbyniwyd nifer o geisiadau am Eithriadau Dosbarth G neu ryddhad rhag talu'r premiwm Dreth Gyngor o 35%, neu i ymestyn yr eithriad chwe mis rhag talu'r Dreth Gyngor mewn perthynas â Dosbarth C oherwydd y cyfyngiadau Covid-19. Mae'r mwyafrif wedi derbyn rhesymau'r Cyngor am beidio â chaniatu'r eithriad, gan dalu'r premiwm neu ymestyn y cyfnod o chwe mis pan nad oes rhaid talu'r Dreth Gyngor ac wedi parhau i dalu.

Mae'n wir datgan, fodd bynnag, fod nifer yn gweld y premiwm fel "treth heb gynrychiolaeth" ac nad yw eu buddsoddiad i wella eiddo lleol, gan gyflogi crefftwyr lleol, sy'n arwain at fwy o wariant yn yr economi leol, yn cael ei gydnabod. Mae nifer wedi datgan os yw'r Cyngor yn dymuno cynyddu'r premiwm ar ail gartrefi yn y dyfodol y bydd rhaid iddynt ystyried newid defnydd yr eiddo neu yn wir ystyried a ydynt am barhau i gael ail gartrefi ar yr Ynys.

Mae rhai perchnogion ail gartrefi yn prynu'r eiddo fel buddsoddiad ac yn defnyddio'r eiddo eu hunain neu'n caniatáu i ffrindiau a theulu aros yn yr eiddo. Os yw cost dal y buddsoddiad yn codi h.y. drwy gynyddu premiwm y Dreth Gyngor, mae mwy o risg y byddant yn ceisio cynhyrchu incwm ychwanegol o'u buddsoddiad drwy osod yr eiddo ar sail fasnachol. Mae hyn yn ei dro'n creu'r cyfle i drosglwyddo'r eiddo o fod yn eiddo domestig i eiddo annomestig sydd yn ei dro'n arwain at ostyngiad cyffredinol yn sail y dreth.

- *A fyddai hyn yn arwain at gynydd yn nifer yr apeliadau a'r heriau cyfreithiol?*

**DIWEDDARIAD:** nid oes unrhyw dystiolaeth fod cyflwyno'r premiymau wedi arwain yn uniongyrchol at gynydd yn nifer yr apeliadau a heriau. Mae'r apeliadau diweddar yn ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 yn unig.

- *Sut fyddai hyn yn cael effaith ar y diwydiant twristiaeth leol?*

**DIWEDDARIAD:** ymddengys nad oes fawr ddim effaith fesuradwy ar dwristiaeth, os o gwbl. Covid-19 sydd wedi cael effaith ar dwristiaeth, gan arwain at drethdalwyr yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ydynt am barhau i dalu'r Dreth Gyngor neu drethi busnes – yn bennaf er mwyn denu grantiau cysylltiedig â Covid-19.

## **A YW'R PREMIYMAU A BENNYD WEDI CWRDD Â NODAU'R PWYLLGOR GWAITH A'R CYNGOR LLAWN?**

- A. Sefydlwyd dau gynllun newydd i gefnogi prynwyr tro cyntaf fyddai'n cael eu cyllido gan gyfran o Bremiwm y Dreth Gyngor. Yn **Atodiad C** ceir adroddiad a baratowyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai) sy'n rhoi dadansoddiad mwy manwl o effaith y cynlluniau penodol hyn mewn perthynas ag amcanion gwreiddiol y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

- B.** Ar sail nifer yr ail gartrefi a'r eiddo gwag tymor hir fel ar 31 Hydref 2020 (dyddiad cyfrifo sylfaen y dreth), nid yw premiymau'r Dreth Gyngor hyd yma wedi llwyddo i ddod ag eiddo gwag tymor hir ac ail gartrefi yn ôl i ddefnydd yn yr ardaloedd lle ceir y niferoedd uchaf o ail gartrefi a/neu'r nifer isaf o gartrefi am brisiau tai yn y chwarter isaf ac, o ganlyniad, nid yw wedi gwella cynaliadwyedd cymunedau lleol yn yr ardaloedd hyn.

Ymddengys fod perchnogion eiddo yn yr ardaloedd hyn yn barod i gwrdd â chost ychwanegol y premiwm ar y lefel bresennol – ond mae angen monitro'r symudiad at drethi busnes a'i adolygu'n barhaus.

Fodd bynnag, mae effaith bosib Covid-19 ac oedi mewn gwaith adnewyddu ar eiddo gwag tymor hir wedi gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer yr eiddo gwag tymor hir a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf – er y gallai'r duedd hon newid eto yn 2021/22.

Mae Covid-19, ynghyd â grantiau Covid-19 yn gysylltiedig â threthi busnes, wedi tynnu sylw trethdalwyr at y ffaith y gallant wneud cais i gofrestru'r eiddo fel adeilad busnes os ydynt yn bodloni'r gofynion i gael eu hystyried fel llety gwyliau. Bydd hyn yn golygu nad oes rhaid talu'r Dreth Gyngor na'r premiwm ac, oherwydd y cynllun rhyddhad trethi busnesau bach ar gyfer hyd at ddau eiddo, ni fydd unrhyw drethi busnes yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion, neu telir cyfradd ostyngol yn unig. Gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer yr ail gartrefi yn hytrach na bod cyflwyno premiwm y Dreth Gyngor a'i lefel yn achosi hynny. Mae hwn yn faes y mae'n anodd ei ragweld.

(Mae **Atodiad D** yn rhoi dadansoddiad fesul cyngor tref/cymuned o nifer yr anheddau y gellir codi premiwm arnynt, wedi eu rhannu yn ôl ail gartrefi ac eiddo gwag tymor hir a'r bandiau Dreth Gyngor fel ar 31 Hydref 2020).

## **DADANSODDIAD O SYMUDIADAU EIDDO RHWNG Y RHESTR PRISIO DRETH GYNGOR A'R RHESTR TRETHI BUSNES**

Mae Arweinydd y Cyngor wedi gofyn am ddadansoddiad i sefydlu nifer yr eiddo domestig sydd wedi symud o'r Dreth Gyngor (cael eu trin fel ail gartrefi) i Drethi Busnes (cael eu trin fel llety gwyliau hunanarlwyo) yn ystod y misoedd diwethaf a'r incwm Dreth Gyngor a gollwyd yn sgil hynny. Y fethodoleg a ddefnyddiwyd i lunio'r dadansoddiad cryno oedd:-

- Y cyfnod dan sylw fyddai 1 Ebrill 2020 i 31 Hydref 2020;
- Diystyrwyd mynd drwy bob eiddo a dynnwyd oddi ar Restr Brisio'r Dreth Gyngor ac yna edrych ar y Rhestr Trethi Busnes fel opsiwn - byddai hynny'n cymryd gormod o amser gan fod nifer o achosion yn cael eu hól-ddyddio dros gyfnod o 2 i 3 blynedd;
- Cynhyrchwyd dadansoddiad o system feddalwedd Refeniw Northgate Sx3 i restru eiddo a dynnwyd oddi ar Restr Brisio'r Dreth Gyngor ar gyfer pob blwyddyn yn y cyfnod y cytunwyd arno. Gwiriwyd sampl o 20% i weld y canran o achosion oedd wedi cael eu tynnu oddi ar Restr Brisio'r Dreth Gyngor ond nad oedd wedi trosglwyddo i'r Rhestr Trethi Busnes. Sefydlodd hyn fod 5% wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr am resymau eraill ac y byddid yn gwneud allosodiad ar sail hyn. Rhoes hyn ffigyrau wedi'u hallosod bod 210 eiddo wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr a bod £669,754 o incwm Dreth Gyngor wedi'i golli (y ffigyrau gwreiddiol oedd 221 a £705,004);

- Cynhyrchwyd dadansoddiad o'r system meddalwedd Refeniw Northgate Sx3 i restru ar gyfer pob blwyddyn y Rhyddhad Trethi Busnesau Bach a ddyfarnwyd yn wreiddiol ar 1 Ebrill 2020 (£4,095,252) pan godwyd y biliau blynyddol ac yna ar 31 Hydref 2020 (£4,715,512) – gyda'r gwahaniaeth rhwng y ddau ffigwr yn dangos y rhyddhad trethi busnesau bach ychwanegol a ddyfarnwyd yn ystod y cyfnod hwnnw;
- Nodwyd o'r sampl a wiriwyd, mewn perthynas â nifer sylweddol o'r eiddo domestig a dynnwyd oddi ar y Rhestr Brisio, eu bod wedi cael eu hól-ddyddio 2 neu 3 blynedd ac roedd y dyddiad cychwyn yn y Rhestr Trethi ar gyfer y sampl a wiriwyd yn cyd-fynd â'r dyddiad dileu ar y Rhestr Brisio yn y rhan fwyaf o achosion.

Caiff y tabl a ganlyn ei gynhyrchu –

Nifer yr eiddo Dreth Gyngor a dynnwyd oddi ar y rhestr yn ystod y cyfnod 01.04.20 – 31.10.20	Incwm Dreth Gyngor a gollwyd yn uniongyrchol i'r Cyngor	Colled i'r pwrw cyhoeddus pe na roddwyd Rhyddhad Trethi Busnesau Bach	Colled i'r pwrw cyhoeddus ar ôl caniatáu Rhyddhad Trethi Busnesau Bach
<b>210</b>	<b>£669,754</b>	<b>£49,493</b>	<b>£620,260</b>

### **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae hwn yn adroddiad sy'n darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Gwaith i ganiatau iddynt ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â pholisi premiymau'r Dreth Gyngor a lefelau'r premiymau yn ystod blynyddoedd ariannol yn y dyfodol i'w ystyried gan y Cyngor llawn.

### **C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Nid yw gwneud penderfyniadau ynghylch lefelau'r premiymau wedi cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

### **CH – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud penderfyniad – bydd yn adolygu'r polisi presennol ynghylch premiymau'r Dreth Gyngor gyda'r nod o wneud argymhellion, ar ôl ymgynghori yn ystod y cylch gosod cyllideb, er mwyn i'r Cyngor llawn wneud penderfyniad yn ei gylch.

### **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r cylch gosod cyllideb ar gyfer 2021/22.

### **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)**

<b>1</b>	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys</b>	Mae hwn yn adolygiad o'r polisi cyfredol
<b>2</b>	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Mae hwn yn adolygiad o'r polisi cyfredol
<b>3</b>	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:</b>	Na

4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	Bydd rhaid ymgynghori i newid y polisi tros gyfnod ac amser i'w gytuno
5	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldebau a'r Gymraeg</b>	Nod y polisi cyfredol i'w creu cymdeithasau cynaliadwy mewn mannau lle mae nifer uwch o eiddo gwag tymor hir ac ail dai - gan ddod a'r eiddo yma yn ôl i ddefnydd.
<b>E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)</b> (mandadol)	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
2	<b>Cyllid / Adran 151</b> (mandadol)	Awdur yr adroddiad
3	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro</b> (mandadol)	Sylwadau wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCH)</b>	
7	<b>Caffael</b>	
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	
<b>F – Atodiadau:</b>		
<b>FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):</b>		

## INCWM YCHWANEGOL Y PREMIWM - PREMIUM ADDITIONAL INCOME 2021/22

Eiddo Dwelling	Nifer / Total	Cyfwerth â Band D Equivalent	Premiwm Ychwanegol / Additional Premium (%)							
			25%	30%	35%	40%	50%	60%	75%	100%
Tai Gwag / Empty Homes	491	465.97	£151,988	£182,385	£212,783	£243,180	£303,976	£364,771	£455,963	£607,951
Llai gostyngiad i 80% o Sylfaen Dreth y Gyllideb a graddfa gasglu 98.5% / Less reduction to 80% Budget Tax base and 98.5% Collection Rate	-	-	-£32,220	-£38,663	-£45,108	-£51,551	-£64,440	-£77,327	-£96,658	-£128,878
<b>Cyfanswm / Total</b>			<b>£119,768</b>	<b>£143,722</b>	<b>£167,675</b>	<b>£191,629</b>	<b>£239,536</b>	<b>£287,444</b>	<b>£359,305</b>	<b>£479,073</b>
Ail Gartrefi Second Homes	2,584	2,762.22	£788,455	£946,146	£1,103,837	£1,261,528	£1,576,910	£1,892,293	£2,365,366	£3,153,821
Llai gostyngiad i 80% o Sylfaen Dreth y Gyllideb a graddfa gasglu 98.5% / Less reduction to 80% Budget Tax base and 98.5% Collection Rate	-	-	-£78,493	-£94,191	-109,890	-£125,588	-£156,985	-£188,384	-£235,479	-£313,972
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>3,075</b>	<b>3,421</b>	<b>£709,962</b>	<b>£851,955</b>	<b>£993,947</b>	<b>£1,135,940</b>	<b>£1,419,925</b>	<b>£1,703,909</b>	<b>£2,129,887</b>	<b>£2,839,849</b>

Canrannau Premiymau Cyngorau Cymru / Welsh Council's Premiums Percentages (statswales.gov.wales)

Name / Enw	2020 - 21	
	Tai Gwag Hirdymor / Long Term Empty	Ail Gartrefi / Second Homes
Ynys Môn / Isle of Anglesey	100%	35%
Gwynedd	50%	50%
Conwy	25%	25%
Dinbych / Denbigh	50%	50%
Fflint / Flint	50%	50%
Wrecsam / Wrexham	50%	50%
Ceredigion	25%	25%
Powys	50%	50%
Penfro / Pembroke	25%, 50%, 100%	50%
Abertawe / Swansea	100%	0%
Caerdydd / Cardiff	50%	0%

**Nid yw gweddill cyngorau Cymru yn codi premiwm /  
All remaining Welsh Councils do not charge premiums.**

**Ynys Môn, Abertawe:** mae'r premiwm 100% ar eiddo gwag hirdymor yn daladwy ar ôl 12 mis /  
**Isle of Anglesey, Swansea:** the 100% long term empty premium is payable after 12 months;

**Gwynedd, Dinbych, Fflint, Wrecsam, Powys, Caerdydd:** mae'r premiwm 50% ar eiddo gwag hirdymor yn daladwy ar ôl 12 mis /  
**Gwynedd, Denbigh, Flint, Wrexham, Powys, Cardiff:** the 50% long term empty premium is payable after 12 months;

**Conwy:** mae'r premiwm 25% ar eiddo gwag hirdymor yn daladwy ar ôl 12 mis. O 1 Ebrill 2021 bydd y premiwm ar y ddau gategori yn codi i 50% /  
**Conwy:** the 25% long term empty premium is payable after 12 months. From 1 April 2021 the premium for both categories will increase to 50%;

**Ceredigion:** mae'r premiwm 25% ar eiddo gwag hirdymor yn daladwy ar ôl 12 mis /  
**Ceredigion:** the 25% long term empty premium is payable after 12 months;

**Penfro:** mae'r premiwm 25% ar eiddo gwag hirdymor yn daladwy ar ôl 36 mis, 50% ar ôl 48 mis a 100% ar ôl 60 mis /  
**Pembroke:** the 25% long term empty premium is payable after 36 months, 50% after 48 months and 100% after 60 months;

**Abertawe:** o 1 Ebrill 2021, bydd premiwm 100% ar ail dai yn dod i rym /  
**Swansea:** from 1 April 2021, 100% premium on second homes will come into force;

**Casnewydd:** yn ymgynghori ar godi premiwm ar dai gwag hirdymor /  
**Newport:** consulting on charging a premium on long-term empty property.



<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Gwaith</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>14 Rhagfyr 2020</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Benthyciadau ecwiti ar gyfer prynwyr tro cyntaf a Grantiau Cartrefi Gwag a ariennir trwy'r Premiwm Treth Gyngor a godir ar Gartrefi Gwag ac Ail Gartrefi</b>
<b>Aelod Portffolio:</b>	<b>Y Cyngorydd Alun Mummery</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:</b>	<b>Ned Michael</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Gwenda Owen</b>
Ffôn:	<b>01248 752238</b>
E-bost:	<b>GwendaOwen@ynysmon.gov.uk</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Yn berthnasol i'r holl Aelodau</b>
<b>A –Argymhellion a rhesymau</b>	
<p><b>1. Argymhellion</b></p> <p><b>Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhau gyda'r polisi</b>  <b>Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhau i gyllido'r cynllun er mwyn cyflawni'r Polisi</b></p> <p><b>Rhesymau</b> - Tystiolaeth amlwg bod y cynllun wedi cyflawni ei amcanion i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf lleol i brynu cartrefi sy'n fforddiadwy iddynt yn eu dewis ardal. Mae hyn yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai bresennol trwy ddod â chartrefi gwag sydd angen eu gwella yn ôl i ddefnydd – tai sydd yn aml yn ddolur llygad yn y gymuned leol. Mae hefyd yn cefnogi busnesau bach a chanolig lleol ac mae iddo fuddion cymunedol eraill yn ogystal.</p> <p><b>Cefndir</b></p> <p>Ym mis Tachwedd 2017 cymeradwyodd Cyngor Sir Ynys Môn bolisi ar gyfer gweithredu dau gynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i gael troed ar yr ysgol dai, i'w hariannu o gyfran o'r arian o'r Premiwm Treth Gyngor a godir ar eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi, sef:-</p> <p>Grant i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu ac adnewyddu cartref gwag; a Benthyciad ecwiti i helpu prynwyr tro cyntaf fedru fforddio eiddo.</p> <p><b>Cyllido</b></p> <p>Yn ystod 2017-18 ariannwyd y cynllun gan Gyngor Sir Ynys Môn yn unig trwy'r Premiwm Treth Gyngor. Oherwydd ei boblogrwydd, roedd y galw yn fwy na'r cyllid a oedd wedi ei neilltuo gan y Cyngor. Yn ystod 2018-21, llwyddodd y Gwasanaethau Tai gyda chais am arian o Raglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TBA) Llywodraeth Cymru i ychwanegu at fuddsoddiad y Cyngor fel y gellid cynorthwyo mwy o ymgeiswyr. Mae'r cyllid hwn wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio i helpu ymgeiswyr o fewn ardal teithio i'r gwaith Caergybi. Nid oes unrhyw arwydd y bydd yn parhau yn 2021-22 gan fod y cyllid am gael ei dargedu tuag at adfywio canol trefi.</p>	

Mae'r siart isod yn dangos yr arian a ddyrannwyd i'r cynllun yn ystod y cyfnod rhwng 2017 a 2021.

Cyfnod	Cyllid gan y Cyngor tuag at grantiau	Cyllid TBA	Cyfanswm
2017 - 2018	£170,000	Amherthnasol	£170,000
2018 - 2019	£170,000	£295,000	£465,000
2019 - 2020	£340,000	£213,075	£553,075
2020 - 2021	£300,000	£293,975	£593,975
<b>Cyfanswm</b>	<b>£1,020,000</b>	<b>£802,050</b>	<b>£1,782,050</b>

Dyrennir swm pellach o £35,000 yn flynyddol i ariannu swydd Swyddog Tai Gwag Cynorthwyol o'r Premiwm Treth Gyngor.

### Cynllun 1 – Grant Adnewyddu Cartrefi Gwag ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf

Roedd y cynllun hwn yn darparu grant o hyd at £20,000 ar gyfer prynwyr tro cyntaf lleol sy'n prynu eiddo sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac y mae angen ei uwchraddio. Mae'r tai hyn yn debygol o fod yn fwy fforddiadwy gan fod y pris yn cael ei ostwng i adlewyrchu cost y gwaith y mae angen ei wneud arnynt. Mae'r grant yn cynnwys eitemau fel gwaith effeithlonrwydd ynni, ailweirio, cael gwared ar dampwydd, ceginau a / neu ystafelloedd ymolchi newydd, ffenestri a drysau, plastro a gwaith ailwampio mewnol fel bod yr eiddo yn addas ar gyfer bywyd modern.

### Y galw am y cynllun 01.11.17 – 30.09.20

Bu'r galw'n fawr fel yr amlinellir isod


Dadansoddiad o'r ymholiadau a'r ceisiadau gan brynwyr tro cyntaf	
Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd	70
Nifer y ceisiadau sydd ar y gweill ac sy'n disgwyl cwblhau'r pryniant	18

### Gwariant 01.11.17 - 30.09.20

Cyfnod	Ceisiadau a broseswyd	Grantiau a gymeradwywyd
2017 – 2018	6	£106,403
2018 – 2019	21	£386,959
2019 – 2020	26	£477,793
2020 -2021 Ebrill-Medi	17	£312,279
Cyfanswm	70	£1,283,434
Ceisiadau ar y gweill	18	£360,000
Cyfanswm cyffredinol	88	£1,643,434
Balans sydd ar ôl		£66,870

## Eiddo a ddychwelwyd i ddefnydd


Mae cyfanswm o 54 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd hyd yma a dylai'r 16 eiddo lle mae grantiau eisoes wedi'u cymeradwyo ddod yn ôl i ddefnydd erbyn 31.03.21. Rhagwelir y bydd ceisiadau sydd ar ddod yn cael eu cymeradwyo erbyn 31.12.20 a gellir dychwelyd cyfran o'r rhain i'w defnyddio erbyn 31.03.21. Mae'r map isod yn dangos lleoliad yr eiddo a ddaeth yn ôl i ddefnydd trwy'r cynllun grant. Mae hyn yn dangos sut mae'r cynllun wedi cyflawni'r amcan o gynnig cyfleoedd ledled yr ynys i bobl fod yn berchen ar eu cartref eu hunain.



## Fforddiadwyedd, a risgiau ac effaith bosib Covid 19

Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) erthygl ar fforddiadwyedd tai i brynwyr am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2017, a oedd yn cynnwys dadansoddiad o brisiau tai ac enillion ynghylch darpar brynwyr tro cyntaf, yn ogystal â phrisiau prynu ac incwm prynwyr tro cyntaf blaenorol.

Yn 2017 gwariodd prynwyr tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr 4.3 gwaith eu hincwm blyneddol gros ar gyfartaledd i brynu eiddo gyda morgais, i fyny o 4.2 yn 2016. Roedd cymarebau fforddiadwyedd prynwyr tro cyntaf yn 2017 ar eu hisaf mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn Ynys Môn, roedd y cyfartaledd rhwng 2.70 a 3.99 ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu i raddau helaeth yn nifer y ceisiadau am grant gan brynwyr tro cyntaf ac nid yw hyn wedi newid ers pedair blynedd.



Yn ôl yr Halifax, mae prynwyr tro cyntaf yn troi fwyfwy at forgeisiau 35 mlynedd yn hytrach na'r rhai 25 mlynedd traddodiadol oherwydd bod prisiau tai yn codi a phroffion fforddiadwyedd llymach. Mae cyfnod morgais hirach yn golygu ad-daliadau misol is ond bydd cost bod yn berchen ar gartref yn cynyddu oherwydd y llog ychwanegol i'w dalu. Allan o 70 o ymgeiswyr, roedd 46 wedi cymryd morgais am dymor o 35 mlynedd neu fwy.

Mae rhagolygon a ryddhawyd gan borth eiddo Zoopla yn dangos, er gwaethaf ymchwydd yn y galw yn gynharach yn 2020, bod cyfran y cartrefi a brynwyd gan brynwyr tro cyntaf yn y DU yn debygol o ostwng am y tro cyntaf mewn pum mlynedd wrth i fanciau mawr dynnu morgais blaendal isel oddi ar y farchnad mewn ymateb i argyfwng Covid 19. Os bydd y rhagolygon yn gywir, dyna fydd y gostyngiad cyntaf mewn gwerthiant tai i brynwyr tro cyntaf ers 2015. Dywedodd yr adroddiad fod y dirywiad economaidd a achoswyd gan Covid-19, wedi effeithio ar allu prynwyr tro cyntaf i brynu eiddo, sydd wedi golygu bod llai o forgeisi benthyciad-i-werth uwch ar gael.

Yn 2019, roedd morgaisi o 90% a throsodd yn cyfrif am oddeutu un rhan o bump o'r holl fenthyciadau cartref yn y DU. Ond ers y cyfnod clo, mae benthycwyr morgaisi mawr wedi dechrau tynnu'n ôl o gynnig benthyciadau 90% a throsodd, rhag ofn y bydd prisiau tai yn cwmpo ac ôl-ddyledion yn cynyddu. Mae hyn eisoes wedi dechrau effeithio ar geisiadau grant prynwr tro cyntaf, gyda dau ymgeisydd yn gorfod tynnu'n ôl gan nad oeddent wedi gallu rhoi'r blaendaliadau o 15 ac 20% sy'n ofynnol gan fenthycwyr a oedd wedi dweud yn wreiddiol mai dim ond 5% oedd ei angen. Mae'r siart isod yn dangos y blaendal a dalwyd gan ymgeiswyr, a'r ganran ar gyfartaledd yw 11%.

Canran blaendal	Nifer yr ymgeiswyr
Blaendal 0 – 5%	20
Blaendal 5.1 – 10%	7
Blaendal 11.1 – 15%	31
Blaendal dros 15.1 %	12
Cyfartaledd y blaendal	11%

Mae cyfran uchel o ymgeiswyr sy'n talu blaendal uwch yn gwneud hynny oherwydd ei fod wedi'i roi iddynt naill ai'n rhannol neu'n llawn gan aelodau o'u teulu. O'r 70 cais a gymeradwywyd, mae 23 wedi cael rhywfaint o'r blaendal neu'r cyfan ohono gan aelod o'r teulu. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad a luniwyd gan Legal and General sy'n amcangyfrif bod tua 56% o brynwyr tro cyntaf yn dibynnu ar "Banc Mam a Dad" am gymorth i brynu eu cartref cyntaf. Dywedodd 71% o'r prynwyr newydd hyn ei fod yn debygol na fyddent wedi medru prynu heb gymorth ariannol gan eu teulu. Os bydd benthycwyr yn parhau i ofyn am flaendaliadau o 15% neu fwy, mae'n debygol y gwelwn nifer y prynwyr tro cyntaf yn Ynys Môn yn gostwng, oni bai bod "Banc Mam a Dad" yn parhau i allu camu i'r adwy.

## Buddion ychwanegol

Mae'r cynllun yn cynnig ystod o fuddion ychwanegol: -

- Mae **227** o fentrau lleol o faint bychan neu ganolig wedi elwa o'r cynllun trwy gael gwaith adnewyddu. Mae hyn yn dangos gwerth ychwanegol gan fod y cyllid grant o £340,000 nid yn unig wedi cefnogi prynwyr tro cyntaf, ond wedi cael ei fuddsoddi ymhellach yn yr economi leol, a thrwy hynny wedi rhoi cyfleoedd gwaith parhaus i bobl leol.
- Mae'r holl eiddo wedi'u gwella, gyda phwyslais arbennig ar wella lefelau effeithlonrwydd ynni sydd wedyn yn arwain at gostau ynni is i berchnogion.
- Mae wedi rhoi cyfle i brynwyr tro cyntaf lleol brynu tai yn eu dewis ardal, yn agos at rwydweithiau teulu ac felly'n cyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg.
- Gall cartrefi gwag fod yn ddolur llygad mewn cymunedau ac mae eu gwella i bobl fyw ynddynt yn helpu i adfywio cymunedau a chynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol trefi.
- Mae prynwyr tro cyntaf yn canmol y cyfleoedd a gânt gan y Cyngor trwy'r cynllun. Roedd y sylwadau ar y ffurflen werthuso yn cynnwys: -  
"Fe wnaeth cael troed ar yr ysgol eiddo yn llawer haws i rywun yn fy sefyllfa ariannol. Fe helpodd fi i wneud fy nhŷ yn gartref diogel i'w fwyhau "

"Fe adawodd i mi brynu cartref fforddiadwy a'i foderneiddio a'i wneud yn lle y gellwn fyw ynddo - rhywbeth na fyddwn i wedi gallu ei wneud heb y grant."

"Wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol gan ein bod wedi gallu byw gyda'n gilydd fel teulu, yn ddiogel yn gynnes ac yn hapus. Mae gan fy mhientyn pump oed ei hystafell ei hun bellach ac nid yw'n rhannu gyda mi."

### Cynllun 2 – Cynllun perchenogaeth cost isel.

Gohiriwyd lansio'r cynllun oherwydd y bu'r galw am y cynllun grant prynwr tro cyntaf yn fwy na'r disgwyl ac oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn cynnig Cynllun "Cymorth i Brynu" sy'n debyg i fenthyciadau ecwiti ac ar gael ar gyfer cartrefi newydd.

Yn hanesyddol mae benthyciadau ecwiti wedi cael eu cynnig gan y Cynllun Prynu Cartref ond mae'r Cyngor bellach mewn sefyllfa i gynnig Benthyciadau Ecwiti ei hun. Manteision gwneud hynny yw y bydd unrhyw gyllid yn cael ei ailgylchu o fewn y cynllun pan werthir eiddo yn y dyfodol gan gynnig elfen o gynaliadwyedd o'r herwydd.

Gyda'r cyllid yn parhau, cynigir lansio'r cynllun perchentaeth cost isel ym mis Ebrill 2021. Dim ond i brynwyr tro cyntaf lleol cymwys sy'n prynu cartref gwag yn Ynys Môn y bydd y cynllun ar gael.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

**C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Sicrhau bod y polisi'n parhau i gael cymeradwyaeth a chefnogaeth lawn y Pwyllgor Gwaith.

<b>CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?</b>		
Cytunodd y Cyngor llawn ym Mawrth 2016 i ddefnyddio ei bwerau dewisol i godi Premiwm Treth Gyngor ar anheddau sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir ac ail gartrefi o 1 Ebrill 2017.		
Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i fuddsoddi yn y Cynlluniau ym mis Chwefror 2017.		
<b>D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?</b>		
Bydd y cynlluniau'n parhau i gael eu hariannu o dderbyniadau a gynhyrchwyd gan y premiwm Treth Gyngor a godir ar gartrefi gwag ac ail gartrefi.		
<b>DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)</b>		
1	<b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys</b>	Mae'n cyfrannu at gwrdd â'r angen am dai fforddiadwy ar yr Ynys, gan roi cyfleoedd i bobl leol brynu cartref.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-</b>	
3	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-</b>	
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	
5	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg</b>	Mae'r cynllun yn caniatáu i gymunedau Cymraeg eu hiaith aros gyda'i gilydd ac felly'n rhoi cyfleoedd i bobl barhau i ddefnyddio'r iaith Gymraeg o ddydd i ddydd.
<b>E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?</b>		
1	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)</b>	
2	<b>Cyllid / Swyddog 151(gorfodol)</b>	
3	<b>Swyddog Cyfreithiol / Monitro(gorfodol)</b>	
4	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	
5	<b>Eiddo</b>	
6	<b>Technoleg Gwybodaeth (TG)</b>	
7	<b>Caffael</b>	
8	<b>Sgriwtini</b>	
9	<b>Aelodau Lleol</b>	

**F - Atodiadau:****FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

Canllawiau ar Weithredu Premiymau Treth Gyngor ar Gartrefi Gwag Tymor Hir ac Ail Gartrefi yng Nghymru - Llywodraeth Cymru, Ionawr 2016

Polisi ar Gymorth i brynwyr tro cyntaf lleol a ariennir o'r Premiwm Treth Gyngor ar gartrefi gwag ac ail gartrefi.

ATODIAD / APPENDIX D

**AIL DAI / SECOND HOMES**

<b>Cyngor Tref / Cymuned – Town / Community Council</b>	<b>A</b>	<b>B</b>	<b>C</b>	<b>D</b>	<b>E</b>	<b>F</b>	<b>G</b>	<b>H</b>	<b>I</b>	<b>Cyfanswm Total</b>	
Aberffraw	3	14	7	6	6	2	1	0	0	39	2%
Amlwch	12	20	22	21	15	4	0	0	0	94	4%
Biwmares / Beaumaris	1	9	24	54	23	19	6	0	1	137	5%
Bodedern	3	1	1	4	2	1	0	1	0	13	1%
Bodffordd	2	3	4	4	2	0	0	0	0	15	1%
Bodorgan	1	10	12	9	10	5	2	1	1	51	2%
Bryngwran	1	1	5	5	2	0	0	0	0	14	1%
Caergybi / Holyhead	55	24	15	13	4	3	2	0	0	116	4%
Cwm Cadnant	4	3	3	3	16	18	14	4	7	72	3%
Cylch y Garn	2	6	5	9	14	5	3	1	0	45	2%
Llanbadrig	10	19	23	24	14	4	1	1	0	96	4%
Llanddaniel	1	3	3	6	1	0	1	0	0	15	1%
Llanddona	6	6	5	10	7	7	4	1	1	47	2%
Llanddyfnan	1	0	4	4	6	2	0	0	1	18	1%
Llaneilian	5	4	9	14	6	3	0	2	0	43	2%
Llannerchymedd	5	5	3	2	2	1	0	0	0	18	1%
Llaneugrad	12	2	1	5	5	3	0	0	0	28	1%
Llanfachraeth	0	4	1	2	1	0	0	0	0	8	0%
Llanfaelog	9	19	87	81	72	48	34	7	0	357	14%
Llanfaethlu	0	1	6	5	6	2	3	0	0	23	1%
Llanfair Mathafarn Eithaf	13	6	29	87	63	16	9	0	0	223	9%
Llanfairpwllgwyngyll	0	4	6	6	6	5	1	0	0	28	1%
Llanfair yn Neubwll	0	10	5	5	2	1	2	0	0	25	1%
Llanfihangel Ysceifiog	1	3	4	4	4	0	1	0	0	17	1%
Llangefni	11	8	8	11	6	0	2	0	0	46	2%
Llangoed	0	11	15	17	12	4	3	3	0	65	3%
Llangristiolus a Cherrigceinwen	3	4	4	5	4	2	1	0	0	23	1%
Llanidan	3	5	8	5	3	1	2	0	0	27	1%
Mechell	5	10	9	9	4	1	1	1	0	40	2%
Moelfre	4	3	25	70	25	7	5	0	0	140	5%
Penmynydd	0	2	10	3	1	2	0	0	0	18	1%
Pentraeth	8	15	19	15	7	3	2	0	0	69	3%
Porthaethwy / Menai Bridge	5	8	20	20	20	8	2	1	1	85	3%
Rhoscolyn	4	3	11	11	15	13	5	2	3	67	3%
Rhosybol	2	1	1	10	6	2	1	0	0	23	1%
Rhosyr	2	13	19	26	9	6	1	1	0	77	3%
Trearddur	4	17	72	62	60	42	24	11	3	295	11%
Tref Alaw	1	3	2	4	1	2	0	0	0	13	1%
Trewalchmai	0	1	2	6	0	0	0	0	0	9	0%
Y Fali / Valley	2	4	11	11	8	9	0	0	0	45	2%
<b>CYFANSWM / TOTAL</b>	<b>201</b>	<b>285</b>	<b>520</b>	<b>668</b>	<b>471</b>	<b>250</b>	<b>133</b>	<b>37</b>	<b>19</b>	<b>2,584</b>	



TAI GWAG HIRDY MOR / LONG-TERM EMPTY PROPERTY

Cyngor Tref/ Cymuned - Town/ Community Council	A	B	C	D	E	F	G	H	I	Cyfanswm Total	
Aberffraw	5	0	0	3	3	0	0	0	0	11	2%
Amlwch	5	7	5	3	5	1	0	0	0	26	5%
Biwmares / Beaumaris	0	11	2	5	5	2	2	0	0	27	5%
Bodedern	0	0	0	4	1	0	0	0	0	5	1%
Bodffordd	2	4	2	2	2	0	0	0	0	12	2%
Bodorgan	0	2	3	2	1	1	0	0	0	9	2%
Bryngwran	1	0	1	2	0	0	1	0	0	5	1%
Caergybi / Holyhead	38	20	3	6	1	0	0	0	0	68	14%
Cwm Cadnant	0	2	1	1	2	2	1	1	0	10	2%
Cylch y Garn	0	0	1	1	1	1	0	0	0	4	1%
Llanbadrig	7	3	5	1	4	1	3	0	1	25	5%
Llanddaniel	1	1	1	1	0	1	0	0	0	5	1%
Llanddona	0	1	0	4	2	1	0	0	0	8	2%
Llanddyfnan	1	0	1	0	4	0	0	0	0	6	1%
Llaneilian	3	1	0	6	0	0	2	0	0	12	2%
Llannerchymedd	2	2	0	2	0	0	0	0	0	7	1%
Llaneugrad	0	0	1	0	0	1	0	0	0	2	0%
Llanfachraeth	0	1	0	1	0	0	0	0	0	2	0%
Llanfaelog	1	6	3	3	3	1	1	1	0	19	4%
Llanfaethlu	0	0	0	1	3	0	0	0	0	4	1%
Llanfair Mathafarn Eithaf	3	2	2	7	4	0	1	0	0	19	4%
Llanfairpwllgwyngyll	0	1	0	5	4	0	0	0	0	10	2%
Llanfair yn Neubwll	1	3	1	1	0	0	0	0	0	6	1%
Llanfihangel Ysceifiog	1	2	3	4	2	0	0	0	0	12	2%
Llangefni	22	10	2	2	2	1	0	0	0	39	8%
Llangoed	0	3	4	0	1	0	0	0	0	8	2%
Llangristiolus a Cherrigceinwen	2	0	2	4	1	0	0	0	0	9	2%
Llanidan	0	2	20	1	1	0	0	0	0	5	1%
Mechell	0	1	4	13	0	2	2	0	0	12	2%
Moelfre	0	2	0	2	0	1	0	0	0	5	1%
Penmynydd	0	0	0	0	2	0	0	0	0	2	0%
Pentraeth	0	2	5	0	0	0	0	0	0	7	1%
Porthaethwy/ Menai Bridge	5	2	4	6	2	0	0	0	0	19	4%
Rhoscolyn	1	0	0	2	3	0	1	0	0	7	1%
Rhosybol	0	2	1	0	2	0	0	0	0	5	1%
Rhosyr	0	4	7	4	2	0	0	0	0	17	3%
Trearddur	4	0	2	2	6	4	0	0	0	18	4%
Tref Alaw	0	2	0	3	0	2	0	0	0	7	1%
Trewalchmai	1	2	0	0	0	0	0	0	0	3	1%
Y Fali / Valley	2	2	6	3	0	1	0	0	0	14	3%
<b>Cyfanswm / Total</b>	<b>107</b>	<b>103</b>	<b>74</b>	<b>95</b>	<b>72</b>	<b>22</b>	<b>15</b>	<b>2</b>	<b>1</b>	<b>491</b>	

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Gwaith</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>14/12/2020</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Achos Busnes Chwaraeon Gogledd Cymru</b>
<b>Aelod(au) Portffolio:</b>	<b>Y Cyngorydd Carwyn Jones</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:</b>	<b>Christian Branch (Dros Dro)</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Gerallt Roberts</b>
Ffôn:	<b>01248 751 964</b>
E-bost:	<b>geralltroberts@ynysmon.gov.uk</b>
<b>Aelodau Lleol:</b>	<b>Yn berthnasol i bob Aelod</b>

<b>A –Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau</b>
<p><b>Argymhelliad:</b> Cefnogi sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru i gymeradwyo'r Achos Busnes sy'n cynnwys Penawdau'r Telerau ar gyfer yr Cytundeb Rhyng-Awdurdodau (IAA) yn y dyfodol mewn perthynas â'r Chwaraeon Gogledd Cymru.</p> <p><b>Rheswm dros yr Argymhelliad:</b> Rhagwelir y bydd ChGC wedi'i sefydlu'n gadarn fel corff rhanbarthol effeithiol a chadarn. Bydd yn cael ei weld a'i gydnabod fel un sy'n darparu arweinyddiaeth, mewnwelediad a throsolwg clir i annog a chefnogi arloesedd a her i'r rheini sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon a chorfforol ledled y rhanbarth. Bydd ChGC yn ychwanegu gwerth ac yn sbarduno newid mewn comisiynu a darpariaeth gymunedol trwy weithio'n agosach gyda'r cymunedau hynny ac oddi mewn iddynt. O ganlyniad i waith ChGC bydd tystiolaeth o newid gwirioneddol a buddion i bob cymuned ledled Gogledd Cymru trwy system gyffredin i fesur allbwn a chanlyniadau a chanddi iaith sy'n ddefnyddiol ar draws yr holl bartneriaid, ynghyd â sylfaen dystiolaeth a mewnwelediad sy'n gadarn ac sy'n darparu tystiolaeth glir o effaith, newid a gwerth am arian. Bydd y dysgu sy'n deillio o hyn yn allweddol o ran cyflawni yn y dyfodol.</p> <p><b>Gwybodaeth gefndir</b></p> <p>Y cyd-destun y tu ôl i ffurfio ChGC yw'r Weledigaeth Genedlaethol ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru sy'n ceisio trawsnewid Cymru i fod yn yn Genedl Egniol (<a href="https://gweledigaethchwaraeoncymru">https://gweledigaethchwaraeoncymru</a>) a hefyd Strategaeth Chwaraeon Cymru sy'n rhagweld Cymru lle mae pawb yn Egniol (<a href="https://www.chwaraeon.cymru/chwaraeon-cymru-strategaeth">https://www.chwaraeon.cymru/chwaraeon-cymru-strategaeth</a>). Dyma fan cychwyn Strategaeth Buddsoddi Partneriaid Chwaraeon Cymru a'r rhesymeg dros ChGC.</p> <p>Mae'r Weledigaeth ar gyfer ChGC wedi'i datblygu trwy ein partneriaeth gydweithredol newydd a chyffrous. Mae hyn yn cynnwys nifer o gyrff sydd wedi hen sefydlu ac sy'n gweithredu ledled y rhanbarth - sefydliadau sy'n rhannu uchelgais ar y cyd i weithio gyda'i</p>

gilydd ac i wneud newid a chael effaith sylweddol er budd pobl Gogledd Cymru.

**‘Grymuso ein cymunedau yng Ngogledd Cymru i fod yn fwy egnïol, gan fyw bywydau iachach a hapusach’**

Mae dull cydweithredol ChGC yn adlewyrchu'r ffaith na all unrhyw un sefydliad gyflawni'r uchelgais hon ar ei ben ei hun ac mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wneud i'r gwelliannau ddigwydd.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

**Peidio ag ymuno â'r bartneriaeth**

Byddai CSYM yn colli'r cyfle i ymuno â'r dull newydd ac arloesol hwn o drawsnewid Cymru i fod yn Genedl Egnïol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

*Oherwydd y newid i weithio fel rhan o bartneriaeth ranbarthol*

**CH – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydy gan fod y dull newydd hwn o weithredu'n cefnogi Amcanion Strategol y Cyngor:

Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi.

Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru'n darparu cyllid ar wahân yn uniongyrchol i'r chwe awdurdod lleol yn ogystal â sefydliadau eraill, sydd wedyn yn gyfrifol am wario'r arian yn eu priod ardaloedd. Fodd bynnag, os cymeradwyir ChGC, bydd yr arian cronus gan Chwaraeon Cymru (amcangyfrifir iddo fod oddeutu £ 2.7m miliwn y flwyddyn ar gyfer y rhanbarth) yn cael ei gyfeirio trwy ChGC a bydd penderfyniadau ar fuddsoddiadau â blaenoriaeth yn cael eu gwneud gan y Bwrdd Partneriaeth gyda throsolwg gan y Bwrdd Llywodraethu.

Cyfanswm y cyllid dangosol 5 mlynedd ar gyfer ChGC rhwng 2021/22 a 2025/26 yw £13,529,494. Mae hyn ar gyfer chwaraeon cymunedol; nofio am ddim; Cynllun grant lleol y Loteri; cronfa Arloesi; a chymorth gweithredu strategol. (Bydd y Cronfeydd Loteri ac Arloesi yn cael eu dal a'u gweinyddu gan Chwaraeon Cymru ond byddant ar gael i ChGC gael arian ohonynt).

Nid oes unrhyw risg ariannol i CSYM - bydd y Swyddogaeth Hamdden yn dal i allu gwneud cais am y cyllid i gyflawni prosiectau rhanbarthol arwyddocaol.

### E - Effaith ar Genedlaethau'r dyfodol (os yn berthnasol)

1	<p><b>Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn dilyn y gweithdai ymgysylltu â phartneriaid a chreu'r Fframwaith Canlyniadau Strategol, datblygwyd Cynllun Rhanbarthol cyntaf Gogledd Cymru. Cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu a'i lywio trwy gyflwyno chwe chynllun ar gyfer 2020/21 gan yr Awdurdodau Lleol unigol, sef cynlluniau a oedd yn manylu ar yr ymrwymiad lleol a'r dull o weithredu Fframwaith Strategol Chwaraeon Gogledd Cymru. Mae'r cynlluniau hyn gan yr ALI yn alinio â'r Fframwaith Canlyniadau Strategol; maent yn tynnu sylw at y defnydd o fewnwelediad, data a gwybodaeth a lywiodd gynlluniau a blaenoriaethau'r ALI unigol, yn unol â Bwriad Chwaraeon Gogledd Cymru a'r dulliau gweithredu a ymgorfforir o fewn y Fframwaith Strategol.</li> <li>• Mae partneriaid yn cydnabod y bydd penderfyniadau yn y dyfodol yn seiliedig ar fewnwelediad a dysgu ar y cyd, gan adeiladu ar agweddau llwyddiannus y system gyflawni gyfredol ledled Gogledd Cymru, yn ogystal â diwallu eu hanghenion lleol.</li> <li>• Gall swyddogion CSYM ddylanwadu ar eu rhaglenni gwaith o fewn y ffordd newydd hon o weithio.</li> </ul>
---	--	---

		Enghraifft o hyn fyddai swyddogion yn gallu gweithio gyda grwpiau iau e.e. plant o oed cyn ysgol, a hynny er mwyn mynd i'r afael â gordewdra mewn plant dan 5 oed.
2	<b>A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut:-</b>	Nid oes unrhyw risg ariannol i CSYM - bydd ein Swyddogaeth Hamdden yn dal i allu gwneud cais am y cyllid i gyflawni prosiectau rhanbarthol arwyddocaol .
3	<b>A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhwch wybod gyda phwy:</b>	Ymgysylltwyd gyda'r partneriaid / rhanddeiliaid canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Gwynedd</li> <li>• Cyngor Sir Ddinbych</li> <li>• Cyngor Sir y Fflint</li> <li>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy</li> <li>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam</li> <li>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</li> <li>• GwE (Consortium Addysg Ranbarthol)</li> <li>• Chwaraeon Anabledd Cymru</li> <li>• Iechyd Cyhoeddus Cymru</li> <li>• Prifysgol Bangor</li> <li>• Prifysgol Wrecsam Glyndŵr</li> <li>• Adra</li> <li>• Cartrefi Conwy</li> <li>• Wales and West housing Cymdeithas Tai Clwyd Alun</li> <li>• Cymdeithas Tai Grŵp Cynefin</li> <li>• Tai Gogledd Cymru (North Wales Housing)</li> <li>• Cartrefi Cymunedol</li> </ul>
4	<b>A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-</b>	<b>Amherthnasol</b>
5	<b>Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldebau a'r Gymraeg</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Atodiad 6 yr Achos Busnes llawn yn amlinellu Datganiad o fwriad ChGC - Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.</li> <li>• Datblygir Polisi Iaith Gymraeg</li> </ul>

<b>E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?</b>		<b>Beth oedd eu sylwadau?</b>
<b>1</b>	<b>Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)</b> (mandadol)	Wedi bod yn gefnogol trwy gydol y broses e.e. y Cyfnod Mynegi Diddordeb a'r Cyfnod Datblygu Achos Busnes.
<b>2</b>	<b>Cyllid / Adran 151</b> (mandadol)	Wedi bod yn gefnogol ac ni chodwyd unrhyw bryderon.
<b>3</b>	<b>Cyfreithiol / Swyddog Monitro</b> (mandadol)	Wedi bod yn gefnogol ac wedi darparu atborth gwerthfawr yn enwedig o ran llywodraethu.
<b>4</b>	<b>Adnoddau Dynol (AD)</b>	Amherthnasol
<b>5</b>	<b>Eiddo</b>	Amherthnasol
<b>6</b>	<b>Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCH)</b>	Amherthnasol
<b>7</b>	<b>Caffael</b>	Amherthnasol
<b>8</b>	<b>Sgriwtini</b>	Amherthnasol
<b>9</b>	<b>Aelodau Lleol</b>	Amherthnasol

<b>F - Atodiadau:</b>
Adroddiad Crynodeb ChGC

<b>FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):</b>
Achos Busnes Llawn ar gael

# Chwaraeon Gogledd Cymru

## Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

### Adroddiad Cryno

Hydref 2020





---

# Chwaraeon Gogledd Cymru

*Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru*

---

## Cynnwys

1.	Pwrpas	1
2.	Cefndir a chyd-destun	1
3.	Cynnydd ChGC hyd yma	1
4.	Trosglwyddo o'r trefniadau cyflenwi presennol i Bartneriaeth ChGC	2
5.	Awdurdod Iletya – CSB Conwy	3
6.	Fframwaith Llywodraethu a Chyfreithiol	4
7.	Cyllid	5
8.	Amserlen a Phroses Gymeradwyo	6

## Tudalen 63 Atodiadau

Atodiad 1:	Penawdau Telerau Cytundeb Llywodraethu Rhyng-Awdurdod Cydweithrediad Chwaraeon Gogledd Cymru	7
Atodiad 2:	Cyllideb 5 mlynedd ddrafft ChGC	2

---

# Chwaraeon Gogledd Cymru

*Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru*

---

## 1. Pwrpas

- 1.1. I ofyn am gymeradwyaeth gan Gyngor Sir Ynys Mon i gefnogi sefydliad Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru (ChGC).
- 1.2. I ofyn am gymeradwyaeth gan Gyngor Sir Ynys Mon fod yn bartner yn Chwaraeon Gogledd Cymru ac / neu gynrychioli Cyngor Sir Ynys Mon ar Fwrdd Llywodraethu ChGC.

## 2. Cefndir a chyd-destun

- 2.1. Y cyd-destun y tu ôl i ffurfio ChGC yw'r Weledigaeth genedlaethol ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, sy'n edrych i drawsffurfio Cymru yn Genedl Egniol (<https://gweledigaethargyferchwaraeon.cymru/>) yn ogystal â Strategaeth Chwaraeon Cymru sy'n dychmygu Cymru lle mae pawb yn actif (<https://www.chwaraeon.cymru/strategaeth-chwaraeon-cymru/>). Dyma'r man cychwyn ar gyfer Strategaeth Buddsoddiad gan Bartneriaid Chwaraeon Cymru, a'r rhesymeg y tu ôl i ChGC.
- 2.2. Mae Gweledigaeth ChGC wedi ei datblygu trwy gyfrwng ein partneriaeth cydweithredol newydd a chyffrous. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys nifer o fudiadau sefydledig sy'n gweithredu ledled y rhanbarth; mae'r rhain yn sefydliadau sy'n rhannu uchelgais ar y cyd i weithio gyda'i gilydd ac achosi newid ac effaith sylweddol fydd o fudd i bobl Gogledd Cymru

**'Grymuso ein cymunedau yng Ngogledd Cymru i fod yn fwy egniol, gan fyw bywydau iachach a hapusach'**

- 2.3. Mae ein dull cydweithredol yn adlewyrchu'r ffaith na all yr un sefydliad gyflawni'r uchelgais hon ar ei ben ei hun ac mae'n hanfodol ein bod yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i alluogi'r gwelliannau hyn

## 3. Cynnydd ChGC hyd yma

- 3.1. Wrth ymateb i'r weledigaeth newydd ar gyfer gwaith rhanbarthol, mae ChGC wedi bod trwy nifer o gamau datblygol pwysig ers haf 2018. I grynhoi, bu iddo:
  - i) Gael caniatâd ffurfiol Awdurdodau Lleol i fwrw ymlaen â Datganiad o Ddiddordeb ac Achos Busnes dilynol.
  - ii) Cynnal Gwerthusiad Opsiynau ar y modelau llywodraethu mwyaf addas.
  - iii) Consensws datblygedig o ran y math o arweinyddiaeth sydd ei angen h.y. awdurdod lletya am gyfnod cychwynol o bum mlynedd

---

# Chwaraeon Gogledd Cymru

## Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

---

- iv) Darn o fewnwelediad datblygedig i adnabod y prif faterion rhanbarthol, eu trefnu yn unol â'r deilliannau ac adnabod y partneriaid darparu / prosiectau sy'n gallu cynnig y datrysiadau arloesedd.
- 3.2. Ymhen pum mlynedd, rhagwelir y bydd ChGC wedi ei sefydlu'n gadarn fel corff rhanbarthol effeithiol a chydnerth. Caiff ei ystyried fel corff sy'n darparu arweinyddiaeth, mewnwelediad a throsolwg eglur i annog a chefnogi arloesedd a herio yn effeithiol i'r rhai hynny sy'n darparu ledled y rhanbarth. Bydd ChGC yn ychwanegu gwerth ac yn gyrru newid mewn comisiynu a darparu cymunedol trwy weithio'n agosach â, ac o fewn, y cymunedau hynny. O ganlyniad i waith ChGC, gwelir tystiolaeth o newid gwirioneddol a budd o i'r holl gymunedau ledled Gogledd Cymru trwy system fesur allbwn a deilliant cyffredin. Bydd y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cael ei ddatblygu i gefnogi cydweithrediad ChGC ar draws y sector ac yn seiliedig ar ddysgu a thystiolaeth ac effaith. Bydd yr hyn a ddysgir o'r broses hon yn allweddol o ran cyflawni yn y dŷfodol

Tudalen 65

## 4. Trosglwyddo o'r trefniadau cyflenwi presennol i Bartneriaeth ChGC

- 4.1. Mae'r Fframwaith Deilliannau Strategol yn cyfrannu at Gynllun Trosglwyddo 2020/21 Achos Busnes Blwyddyn 1 ChGC.
- 4.2. Yn dilyn y gweithdai ymgysylltu â phartneriaid a ffurfio'r Fframwaith Deilliannau Strategol, datblygwyd Cynllun Rhanbarthol cyntaf Gogledd Cymru. Cafodd y cynllun hwn ei ddatblygu a'i hysbysu trwy gyflwyno chwe chynllun unigol gan Awdurdodau Lleol ar gyfer 2020/21, yn manylu ar yr ymrwymiad a'r ymagwedd leol tuag at roi Fframwaith Strategol newydd Chwaraeon Gogledd Cymru ar waith. Mae'r cynlluniau ALI hyn yn cyd-fynd â'r Fframwaith Deilliannau Strategol; maent yn amlygu'r defnydd o fewnwelediad, data a gwybodaeth oedd yn bwydo i fewn i gynlluniau a blaenoriaethau'r ALLau unigol, yn unol â Bwriad Chwaraeon Gogledd Cymru ac ymagweddau o fewn y Fframwaith Strategol.
- 4.3. Mae'r prif egwyddorion a ganlyn yn tanategu'r Fframwaith Deilliannau Strategol, y Cynllun Rhanbarthol a chynlluniau'r ALLau:
- **Bydd partneriaid yn ymrwymo i weithio â Chwaraeon Gogledd Cymru (ChGC) ar ddatblygiad parhaus dealltwriaeth a rennir o sut y bydd arweinyddiaeth, cynllunio a darparu rhanbarthol cydweithredol yn edrych wrth symud ymlaen; wrth ystyried cydweithredu rhanbarthol, bydd yn sylfaenol sicrhau bod hyn yn digwydd ar bob lefel ac i bob cyfeiriad posibl fel bod blaenoriaethau, y meddwl am y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain a rhannu dysgu yn rhan annatod o Bartneriaeth ChGC a'r cyffiniau.**
  - **Mae partneriaid yn cydnabod y bydd penderfyniadau'r dŷfodol yn cael eu gwneud ar sail mewnwelediad a dysgu ar y cyd, gan adeiladu ar agweddau llwyddiannus o'r system ddarparu bresennol ledled Gogledd Cymru, yn ogystal â chwrdd â'u hanghenion lleol;**
  - **Bydd 2021-22 yn flwyddyn drosglwyddo, lle bydd angen i'r holl bartneriaid gyfrannu ar y cyd ac yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod, er mwyn sicrhau bod gennym ddull gweithio gwirioneddol gydweithredol a chydlynol yng Ngogledd Cymru; a**

---

# Chwaraeon Gogledd Cymru

## Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

---

- **Partneriaid i barhau i ystyried eu Cynlluniau Nofio am ddim o fewn cyd-destun Chwaraeon Gogledd Cymru, ac i barhau i ymrwmo i gydweithio â Thîm Chwaraeon Gogledd Cymru a'r Prosiect, Chwaraeon Cymru a Nofio Cymru.**

4.4. Y Prif Egwyddorion o ran ariannu ALLau Gogledd Cymru yn 2021/2022 fel rhan o'r cyfnod trosglwyddo fydd:

- **Bydd partneriaid ALI yn ymrwmo i weithio â Chwaraeon Gogledd Cymru (ChGC) ar ddatblygiad parhaus dealltwriaeth a rennir o sut y bydd arweinyddiaeth, cynllunio a darparu rhanbarthol cydweithredol yn edrych wrth symud ymlaen;**
- **Mae partneriaid ALI yn cydnabod y bydd penderfyniadau'r dyfodol yn cael eu gwneud ar sail mewnwelediad a dysgu ar y cyd, gan adeiladu ar agweddau llwyddiannus o'r system ddarparu bresennol ledled Gogledd Cymru, yn ogystal â chwrdd â'u hanghenion lleol;**
- **Bydd 2021-22 yn gyfnod o drosglwyddo at ffordd newydd o weithio. Bydd angen i'r holl bartneriaid ALI gyfrannu ar y cyd ac yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod, er mwyn sicrhau bod gennym ddull gweithio gwirioneddol gydweithredol a chydlynol yng Ngogledd Cymru.**

4.5 Wrth i ChGC gasglu momentwm bydd rhifynnau o'r Cynllun Rhanbarthol yn y dyfodol yn cael eu llywio gan y partneriaid cydweithredol a chomisiynu ehangach a fydd gyda'i gilydd yn cefnogi gweithredu'r weledigaeth ranbarthol.

4.6 Mewn ymarferion cynllunio rhanbarthol yn y dyfodol, bydd y broses o ddatblygu'r Cynllun Rhanbarthol yn ehangach nag awdurdodau lleol yn unig.

## 5. Awdurdod Iletya – CSB Conwy

5.1. Cydnabuwyd yn gynnar y byddai angen cefnogaeth sefydliad Iletya ar gyfer y cyfnod trosglwyddo a blynyddoedd cynnar ChGC. Mae hyn oherwydd tri phrif reswm:

- **Bydd yn galluogi i ChGC, trwy'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol, i ganolbwyntio ar sefydlu'r bartneriaeth a'r deilliannau sydd i'w cyflawni, yn hytrach na recriwtio staff i ddarparu cefnogaeth 'swyddfa gefn'**
- **Bydd yn galluogi i ni ddysgu am ChGC fel partneriaeth er mwyn datblygu dysg mewnol ynghylch natur a graddau'r adnoddau sydd eu hangen yn fewnol, a pha rai y gellir eu cael yn allanol**
- **Bydd yn galluogi dealltwriaeth o'r cychwyn cyntaf ynghylch y gyllideb ar gyfer gweithredu'r sefydliad fel rhywbeth ar wahân i hwnnw sy'n canolbwyntio ar gydweithredu i gyflawni deilliannau sydd wedi eu hadnabod**

5.2 Cyfrifoldeb Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CCBC) fydd cynnal ChGC ar y cychwyn; cytunwyd ar hyn trwy broses gystadleuol lle gwahoddwyd partïon â diddordeb i gynnig i fod y sefydliad cynnal.

---

## Chwaraeon Gogledd Cymru

### Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

---

5.3 Cytunodd Aelodau ChGC mai CBSC fydd yr awdurdod arweiniol ar gyfer pum mlynedd cyntaf y Bartneriaeth. Rôl CBSC yn benodol yw:

- **Bod yn awdurdod lletya ac arweiniol, a chorff atebol, i Gydweithrediad Chwaraeon Gogledd Cymru;**
- **Bod yn gyfrifol am benodiad a chyflogaeth y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol;**
- **Fel awdurdod lletya ac arweiniol, derbyn cyfran gytunedig o arian Chwaraeon Cymru i gyfrannu at swydd y Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a swyddogaeth CBSC fel yr awdurdod lletya ac arweiniol;**
- **Fel awdurdod lletya'r Cydweithrediad, bod yn brif gyswllt ar gyfer ymgysylltu â Chwaraeon Cymru mewn perthynas ag arian Chwaraeon Cymru, ac ymlyniad at ofynion llywodraethu Chwaraeon Cymru ar ran y Gydweithrediad;**
- **Rheoli Cyfrif ChGC a bod yn gyfrifol am ddyrannu arian o Gyfrif ChGC yn unol â phenderfyniadau'r Bwrdd Llywodraethu;**
- **Ymgysylltu â gweithwyr mewn swyddi sy'n ymwneud â rheoli a gweithredu'r Cydweithrediad;**
- **Sicrhau y caiff cyfarfodydd Bwrdd y Bartneriaeth a'r Bwrdd Llywodraethu eu cynnal yn unol â'r darpariaethau ar gyfer y bwrdd a nodir yn Atodiad 1**

5.2. Yn ychwnaegol i'r uchod, bydd CSBC yn cynnig cefnogaeth weinyddol i ChGC.

## 6. Fframwaith Llywodraethu a Chyfreithiol

6.1 Mae'r Penawdau Telerau drafft ar gyfer Partneriaeth ChGC wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1.

6.2 Yn unol ag adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972 bydd Aelodau ChGC yn ymrwymo i'r Cytundeb Llywodraethu Rhyng-Awdurdod i nodi'n glir eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â llywodraethu a strwythur ChGC.

6.3 Bydd Partneriaid ChGC yn ymuno â'r Bartneriaeth a'r Penawd Telerau am dymor cychwynnol o bum mlynedd o'r dyddiad y gweithredir y Cytundeb yn ddilys gan Aelodau ChGC.

## 7. Cyllid

- 7.1 Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid ar wahân yn uniongyrchol i'r chwe awdurdod lleol, sydd wedyn yn gyfrifol am wario yn eu priod ranbarthau. Fodd bynnag, os caiff ChGC ei gymeradwyo, bydd yn derbyn cyllid cronnus gan Chwaraeon Cymru (amcangyfrifir oddeutu £ 2.7m miliwn y flwyddyn ar gyfer y rhanbarth) a bydd yn penderfynu sut y caiff yr arian hwn ei wario ledled rhanbarth Gogledd Cymru.
- 7.2 Mae'n eglur i ChGC fod cyfanswm dangosol y cyllid ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2021-22 a 2025-26 fel a ganlyn:

Tabl 7.1: Cyfanswm cyllid dangosol 5 mlynedd ar gyfer Chwaraeon Gogledd Cymru o 2021-22 to 2025-26:

	Chwaraeon Gogledd Cymru	Disgrifiad
<b>Trysorlys LIC</b>	£4,540,307	Adnodd er mwyn rhoi dechrau da i bob person ifanc trwy ddarparu gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. (Ar hyn o bryd, mae hwn yn ariannu chwaraeon cymunedol ac fe'i defnyddir i gyflogi staff - cyllideb Pobl Ifanc Egniol).
<b>Buddsoddiad Nofio am Ddim</b>	£1,617,750	Arian pridiannol i gyflawni gofynion y Cynllun Nofio am Ddim
<b>Loteri - cynllun grantiau lleol</b>	£4,608,937	Cyllideb Loteri: Cyllideb gomisiynu i gefnogi cyfleoedd datblygu lleol gyda darpariaeth sy'n cyd-fynd â Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.  (Mae hyn yn cynnwys y Gist Gymunedol bresennol a dyraniad o gyllidebau Grantiau Datblygu
<b>Cronfa Arloesi</b>	£2,187,500	Cyllideb Loteri: Cyllideb gomisiynu i gefnogi cyfleoedd cydweithredol ac arloesol newydd sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth Chwaraeon tra'n cyflawni blaenoriaethau lleol / rhanbarthol. Caiff yr adnodd hwn ei ddefnyddio fel arf i sicrhau arian cyfatebol.
<b>Cefnogaeth Gweithredu Strategol</b>	£575,000	Cefnogi swyddogaeth strategol y bartneriaeth trwy arweinyddiaeth, datblygu mewnwelediad a chefnogi gweithredu.
<b>Cyfanswm dros 5 mlynedd</b>	<b>£13,529,494</b>	

\* Bydd y Gronfeydd Loteri ac Arloesi yn cael eu dal a'u gweinyddu gan Chwaraeon Cymru ond byddant ar gael i ChGC dynnu yn eu herbyn.

---

## Chwaraeon Gogledd Cymru

### *Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru*

---

- 7.3 Crynhoir cyllideb ddrafft ar gyfer 5 mlynedd gychwynnol ChGC yn Atodiad 2. Mae hwn yn nodi'r incwm hysbys ar gyfer ChGC a chyllid ychwanegol trwy ffynonellau masnachol neu ffynonellau eraill y mae gan ChGC uchelgais eu codi ynghyd â'r Costau Prosiect a'r Costau Lletya diffiniedig a ddosrannir iddynt Conwy.

## 8. Amserlen a Phroses Gymeradwyo

- 8.1 Mae ChGC yn cyflwyno'r achos busnes hwn i Chwaraeon Cymru ym mis Hydref 2020 i'w asesu, i baratoi ar gyfer Bwrdd Chwaraeon Cymru ar 26 Tachwedd 2020.
- 8.2 Gofynnir i bartneriaid gadarnhau eu cefnogaeth i sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru (ChGC) mor agos at y dyddiad uchod â phosibl.

## Atodiad 1: Penawdau Telerau Cytundeb Llywodraethu Rhyng-Awdurdod Cydweithrediad Chwaraeon Gogledd Cymru

Tudalen 70

Rhif	Darpariaeth	Rhwymedigaethau materol
1.	Partion	<p><b>Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy</b> o Bodlondeb, Conwy Gogledd Cymru, LL32 8DU ("<b>CBSC</b>");</p> <p><b>Cyngor Sir Dinbych</b> o Wynnstey Road, Ruthin, LL15 1YN;</p> <p><b>Cyngor Sir Fflint</b> o County Hall, Wyddgrug, Fflint CH7 6NB;</p> <p><b>Cyngor Gwynedd</b> o Pencadlys, Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE;</p> <p><b>Cyngor Sir Ynys Mon</b> o Swyddfeydd y Cyngor Llangefni, Ynys Mon LL77 7TW;</p> <p><b>Cyngor Bwrdeistref Wrecsam</b> o 16 Lord Street, Wrecsam LL11 1LG;</p> <p><b>Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</b> o Ysbyty Wrexham Maelor, Croesnewydd Road, Wrecsam, LL13 7TD;</p> <p><b>Prifysgol Bangor</b> o Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DG</p> <p><b>Prifysgol Glyndwr Wrecsam</b> o Mold Road, Wrecsam, LL11 2AH</p> <p><b>Chwaraeon Anabledd Cymru</b> o Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, Caerdydd, CF11 9SW</p> <p><b>GwE</b> o Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY</p> <p><b>Iechyd Cyhoeddus Cymru</b> o 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Caerdydd, CF10 4BZ</p> <p><b>Adra</b> o Tŷ Coch, Llys y Dderwen, Parc Menai, Bangor, LL57 4BL</p> <p><b>Tai Gogledd Cymru</b> o Plas Blodwel, Broad Street, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9HL.</p> <p><b>Tai Wales &amp; West</b> o Tŷ Draig, St. David's Park, Ewloe, Deeside. CH5 3DT</p> <p><b>Grŵp Cynefin</b> o Ty Silyn, Penygroes, Gwynedd.</p> <p><b>Cartrefi Conwy</b> o Morfa Gele, Parc Busnes Gogledd Cymru, Cae Eithin, Abergele, LL22 8LJ</p> <p><b>ClwydAlyn</b> o 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Dinbych. LL17 0JD</p> <p>pob un yn "<b>Aelod ChGC</b>" a gyda'i gilydd yn "<b>Aelodau ChGC</b>" (ac eithrio lle mae wedi'i ddiffinio'n unigol).</p>
2.	Cefndir a Datganiadau	<p>O dan frand/baner "Chwaraeon Gogledd Cymru", mae Aelodau ChGC yn y broses o baratoi achos busnes i'w gyflwyno i Chwaraeon Cymru, yn ymwneud â chreu cydweithredfa fydd, trwy CBSC fel awdurdod lletya'r gydweithredfa, yn derbyn arian yn uniongyrchol gan Chwaraeon Cymru i'w wario ar weithgareddau a phrosiectau chwaraeon a hamdden ledled Gogledd Cymru. ("<b>Chwaraeon Gogledd Cymru</b>" neu'r "<b>Cydweithredfa</b>").</p> <p>Mae Aelodau ChGC yn deall fod llywodraethu da yn sail allweddol i lwyddiant Chwaraeon Gogledd Cymru; ac nad rheoli gweithrediadau dyddiol yn unig ydyw, ond yn hytrach y fframwaith o strategaeth, rheoliadau a phrosesau rheoli risg, a dull sefydliadol o fynd ati o sicrhau y caiff y diwylliant, y gwerthoedd a'r cywirdeb eu dilyn gan bawb.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae Chwaraeon Cymru yn dyrannu arian yn uniongyrchol i'r chwe awdurdod lleol ar wahân a nodir ym mharagraff 1 (Partion), sydd wedyn yn gyfrifol am wariant yn eu rhanbarthau eu hunain. Fodd bynnag, os caiff ChGC ei gymeradwyo, bydd yn derbyn</p>



# Chwaraeon Gogledd Cymru

## Sefydlu Partneriaeth Chwaraeon Gogledd Cymru

Tudalen 71

Rhif	Darpariaeth	Rhwymedigaethau materol
